

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
6/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
IONAWR 20, 2022

Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru 2019 a 2020

Adroddiad ar gyfer Croeso Cymru

Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru yn 2019 a 2020

Michael Davies, Strategic Research and Insight



Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau

Croeso Cymru

Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwiltwristiaeth@llyw.cymu

Cynnwys

Rhestr acronymau a sut i ddarllen y tablau	2
1. Prif ganfyddiadau	4
2. Cyflwyniad.....	12
3. Methodoleg	17
4. Cyfran o atyniadau ar agor yn 2019 a 2020.....	21
5. Y deg prif atyniad am ddim ac â thâl	24
6. Ymweliadau 2019 a 2020	28
7. Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth	38
8. Taliadau mynediad.....	43
9. Gweithrediadau	50
10. Proffil ymwelwyr ar gyfer 2019 a 2020.....	55
11. Cyfweliadau manwl: Prif ganfyddiadau	57

Rhestr acronymau a sut i ddarllen y tablau

Hoffai Croeso Cymru a SRI ddiolch i'r holl gynrychiolwyr a gweithredwyr yn y sector atyniadau a ddarparodd wybodaeth ar gyfer yr arolwg y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arno. Heb eu cymorth, ni fyddai'n bosibl coladu'r ffigurau hyn.

Amcangyfrifon / nid yw ffigurau ymweliadau ar gael

Rhoddir ffigurau a ddangosir mewn ffydd dda ar sail gwybodaeth ar ddarparwyd gan berchenogion atyniadau. Sylwer y gallai fod yn anodd gwahaniaethu rhwng mathau gwahanol o ymwelwyr mewn atyniadau penodol.

Os oedd atyniad yn amcangyfrif ei ffigur ymwelwyr blynyddol, yna mae'r ffigur a ddarperir ganddynt yn cynnwys seren (*).

Mynediad

Os oes gan atyniad dâl mynediad, rhoddir y tâl mynediad i oedolion ar gyfer y prif dymor. Os dywedodd yr atyniad ei fod yn codi tâl am fynediad, ond ni wnaeth roi'r tâl mynediad, fe'i nodi gydag ND (= ni ddarperir).

Y taliadau derbyn a gynhwysir yn yr adroddiad yw'r rhai a ddarperir i SRI gan weithredwyr. Gallai'r rhain fod yn wahanol i'r rhai a raddir ar wefannau.

Categoriâu atyniadau

Mae atyniadau wedi'u dosbarthu yn ôl categori at ddibenion dadansoddi. Dangosir y categorïau yn y tabl dros y dudalen. Sylwer nad yw atyniadau yn perthyn yn daclus i un categori yn unig bob amser. Rydym wedi dosbarthu pob atyniad yn y categori sy'n fwyaf addas iddynt.

TALFYRIAD

CATEGORI	ACRONYM	EGLURHAD
Rhanbarthau	C	Canolbarth Cymru
	G	Gogledd Cymru
	D-dd	De-ddwyrain Cymru
	D-o	De-orllewin Cymru
Perchenogaeth	AC	Amgueddfa Cymru
	Cadw	Cadw (Welsh Historic Monuments)
	DC	Dŵr Cymru
	ALI / PC	Awdurdod Lleol / Parc Cenedlaethol
	CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
	YG	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
	PB	Perchnogaeth breifat (perchnogion unigol preifat, sefydliad / ymddiriedolaeth ac ati)
	RSPB	Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
Categori	A / G	Atyniad antur / gweithgaredd
	PG	Parc gwledig, gerdd, atyniadau eraill sy'n seiliedig ar natur
	Fferm	Fferm / bridiau prin
	B / D	Atyniad bwyd neu ddiod
	EH	Priodweddau hanesyddol, cestyll, caerâu, tai hanesyddol, palasau, henebion hanesyddol, safleoedd archeolegol, eiddo hanesyddol eraill, canolfannau treftadaeth, addoldai
	DIW	Atyniad diwylliannol / crefft
	AOC	Amgueddfeydd a /neu orielau celf, canolfannau celfyddydau
	Rh / T	Rheilffordd / tramffordd / teithio / atyniad trafnidiaeth / teithiau
	CW / T	Canolfan Wyddoniaeth / technoleg
	Thema	Parciau hamdden, parciau thema
	BG	Gwarchodfa bywyd gwyllt / natur
	ARALL	Atyniad arall
Math o weithiwr	LA	Llawn amser
	RA	Rhan amser
	GD	Gwirfoddolwr di-dâl

1. Prif ganfyddiadau

Gohirio arolwg 2019

- 1.1 Cynhelir yr Arolwg o Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth bob blwyddyn, ac mae arolwg pob blwyddyn yn gofyn am ffigurau am y flwyddyn flaenorol.
- 1.2 Cafodd yr Arolwg o Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth ar gyfer 2019, a gynlluniwyd i gael ei gynnal yn 2020, ei ohirio yn sgil pandemig COVID-19. Roedd llawer o atyniadau ar gau, sy'n golygu nad oedd yn bosibl cynnal yr arolwg.
- 1.3 O ganlyniad i hyn, gofynnwyd i atyniadau am eu data ynglŷn ag ymwelwyr ar gyfer 2019 a 2020 trwy un arolwg, a gynhaliwyd yn 2021.

Cyd-destun mewn perthynas â COVID-19

- 1.4 Datganodd Sefydliad Iechyd y Byd fod COVID-19 yn bandemig ar 11 Mawrth 2020. Ar 20 Mawrth 2020, cyhoeddodd Prif Weinidog y DU fod y Llywodraeth yn “dweud wrth gaffis, tafarndai, bwytai i gau heno” ynghyd â “chlybiau nos, theatrau, sinemâu, campfeydd a chanolfannau hamdden”. Arweiniodd hyn at gyfnod o gyfyngiadau symud llawn ar 23 Mawrth 2020.
- 1.5 Ni chaniatawyd i fusnesau atyniadau weithredu am lawer o 2020. Ar draws y flwyddyn gyfan, caniatwyd i atyniadau awyr agored agor am oddeutu 31 wythnos o'r flwyddyn, tra caniatwyd i atyniadau dan do fod ar agor am oddeutu 29 wythnos, ac atyniadau tanddaearol am oddeutu 27 wythnos.

Cyfradd ymateb

- 1.6 Gwahoddwyd 569 o atyniadau y credir eu bod yn bodloni'r diffiniad twristiaid i gymryd rhan. Gwahoddwyd atyniadau i gwblhau'r arolwg ar-lein, a gofynnwyd i'r rhai na ymatebodd i gwblhau'r arolwg dros y ffôn.
- 1.7 Roedd 53% o atyniadau yn gallu cwblhau'r adrannau o'r arolwg a oedd yn gofyn am 2019, ac roedd 46% yn gallu cwblhau'r a oedd yn gofyn am 2020.

Dull cofnodi ar gyfer nifer yr ymwelwyr

- 1.8 Er mwyn asesu dibynadwyedd nifer yr ymwelwyr a ddarparwyd gan atyniadau, gofynnwyd i atyniadau sut y maent yn cyfrif nifer eu hymwelwyr.
- 1.9 Mae'r gyfran sy'n seilio eu ffigurau ymwelwyr ar gyfer 2019 a 2020 yn 'amcangyfrifon yn unig' yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol. Dywedodd 16% o atyniadau fod eu ffigurau ymwelwyr ar gyfer 2020 wedi'u seilio ar 'amcangyfrifon yn unig', a dywedodd 17% yr un peth ar gyfer

2019. Mae hyn yn cymharu â 9% o atyniadau yn 2018 a ddywedwyd bod eu ffigurau ymwelwyr wedi'u seilio ar 'amcangyfrifon yn unig'.

- 1.10 Gall hyn fod o ganlyniad i'r cynnydd mewn atyniadau unigol llai sy'n cwblhau'r arolwg, a allai fod yn fwy tebygol o ddibynnu ar amcangyfrifon nag atyniadau mwy. Hefyd, nid oedd gan rai atyniadau fynediad at y wybodaeth y byddai ganddynt fel arfer, gan gynnwys ffigurau ymwelwyr ar gyfer 2019 a/neu 2020, am resymau sy'n gysylltiedig â COVID-19.
- 1.11 Er i'r gyfran o atyniadau sy'n seilio eu ffigurau ymwelwyr ar 'amcangyfrifon yn unig' gynyddu, mae'r atyniadau hyn ond yn ffurfio cyfran fach o'r sampl, a gwnaeth yr atyniadau sy'n weddill gyfrif eu ffigurau ymwelwyr yn seiliedig ar ddulliau cofnodi mwy manwl gywir.
- 1.12 Yn 2020, adroddodd 45% o Atyniadau fod eu ffigurau ymwelwyr yn 'Amcangyfrifon' ac nid yr 'union' ffigurau, tra oedd y ffigur ar gyfer 2019 bron yn union yr un fath (46%).
- 1.13 Gall ffigurau amcangyfrifedig fod yn amcangyfrifon syml, neu gallant gael eu seilio ar gyfrifon sampl neu ddata arall a gesglir gan yr atyniad. Mae amcangyfrifon hefyd yn cynnwys atyniadau sy'n defnyddio dulliau cyfrif mwy manwl, megis gwerthiannau tocynnau, dulliau mecanyddol, neu gyfrif â llaw, ond nid oes ganddynt yr union ffigurau, felly gwnaethant ddosbarthu eu ffigurau ymwelwyr fel 'amcangyfrifon'. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, atyniadau sy'n seilio eu ffigurau ymwelwyr ar werthiannau tocynnau, ond sy'n gwneud rhagdybiau ar nifer yr ymwelwyr sydd yn mynychu ar ffurf archebion teulu neu grwpiau eraill. Neu, yn yr un modd, atyniadau sy'n defnyddio 'dulliau a llaw' o gyfrif ymwelwyr, sy'n ddangosyddion da o nifer yr ymwelwyr, ond nid ydynt yn fanwl gywir drwy'r amser.

Cyd-destun gweithredu ar gyfer 2019 a 2020

- 1.14 Ym mis Mawrth 2019, roedd 80% o'r atyniadau sy'n darparu data ar agor, ond gwnaeth hyn leihau i 57% ar gyfer mis Mawrth 2020 pan aeth y DU i gyfyngiadau symud.
- 1.15 Ym mis Ebrill a mis Mai 2020, dim ond 3% o atyniadau sy'n darparu data oedd ar agor. Ni chaniatawyd i atyniadau agor ar yr adeg hon, ond mae'r atyniadau hyn yn cynrychioli atyniadau awyr agored sy'n darparu mynediad cyhoeddus i ymarfer corff.
- 1.16 Roedd rhai atyniadau ar gau trwy gydol 2020 ac ni wnaeth rhai ailagor ar ôl y cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth 2020. Roedd 15% o'r atyniadau sy'n ymateb i'r arolwg ar gau trwy gydol 2020, tra oedd 18% o atyniadau ar agor ar ryw adeg rhwng mis Ionawr a mis Mawrth, cyn aros ar gau am weddill y flwyddyn. Felly, nid oedd traean (33%) o'r atyniadau ar agor o gwbl rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2020.
- 1.17 Roedd atyniadau dan do yn llai tebygol o fod ar agor nag atyniadau awyr agored. Ym mis Awst 2020 – un o'r misoedd prysuraf i atyniadau, dim ond 34% o atyniadau dan do oedd ar agor, ond roedd cyfran sylweddol uwch o atyniadau awyr agored ar agor (73%).
- 1.18 Dywedodd dros hanner (57%) yr atyniadau eu bod yn dewis aros ar agor pryd bynnag y caniateir iddynt wneud hynny. Dywedodd 38% eu bod wedi dewis cau ar ryw adeg oherwydd

COVID-19, er bod hawl ganddynt i ailagor, a dywedodd 5% eu bod wedi dewis cau, hyd yn oed pan oedd hawl ganddynt i ailagor, ond am resymau nad oeddent yn gysylltiedig â COVID-19.

- 1.19 Gofynnwyd i atyniadau a oedd ar agor ar unrhyw adeg rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2020 at ba ganran o'u capasiti arferol yr oeddent yn gweithredu arni, ar gyfartaledd, pan oeddent ar agor.
- 1.20 Roedd un ym mhob 10 o atyniadau (10%) yn gweithredu ar gapasiti o lai nag 20% o'u capasiti arferol, ond roedd ychydig yn llai na hanner (46%) yn gweithredu ar gapasiti rhwng 20% a 49% o'u capasiti arferol. Roedd 28% yn gweithredu ar gapasiti rhwng 50% a 79% o'u capasiti arferol, ac roedd 7% yn gweithredu ar gapasiti rhwng 80% a 99% o'u capasiti arferol. Roedd tua un o bob deg (9%) o atyniadau yn agor ar gapasiti llawn.

Ymweliadau yn 2019 a 2020

- 1.21 Cafodd tua 22.3 miliwn o ymweliadau eu gwneud ag atyniadau yng Nghymru a ddarparodd ddata ar gyfer 2019, ond cafodd tua 6.2 miliwn o ymweliadau eu gwneud ag atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2020.
- 1.22 Roedd y 25 o brif atyniadau yn 2019 yn cyfrif am bron i hanner o bob ymweliad a gofnodwyd yn 2019 (49% o ymweliadau, ac 10,838,139 o ymweliadau yn gyfan gwbl). Yn 2020, roedd y 25 o brif atyniadau yn cyfrif am 64% o ymweliadau (3,950,766 o ymweliadau yn gyfan gwbl).
- 1.23 Mae'r gyfran o ymweliadau ag atyniadau am ddim ac atyniadau â thâl bron yr un peth ar gyfer 2019 a 2020. Yn 2019, roedd 57% o ymweliadau ag atyniadau am ddim ac yn 2020, roedd 59% o ymweliadau ag atyniadau am ddim. Yn yr un modd, yn 2019, roedd 43% o ymweliadau ag atyniadau â thâl, ac yn 2020, roedd 41% o ymweliadau ag atyniadau â thâl. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn debyg i 2018 (roedd 61% o ymweliadau ag atyniadau am ddim ac roedd 39% o ymweliadau ag atyniadau â thâl).
- 1.24 Roedd nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd â phob atyniad ar gyfer 2019 (74,647) yn is na nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd yn 2018 (89,610). Gallai hyn fod o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyfradd ymateb yn 2019 o'i gymharu â 2018, gan i fwy o atyniadau bach gwblhau'r arolwg. Gwnaeth nifer yr ymwelwyr ar gyfartaledd fesul atyniad leihau'n sylweddol i 27,914 yn 2020.

Y prif atyniadau yn 2019

- 1.25 Yr atyniad â thâl a nododd y nifer uchaf o ymwelwyr yn 2019, fel mewn blynyddoedd blaenorol, oedd Parc Dŵr a Chyfadeilad Hamdden yr LC yn Abertawe (678,714 o ymwelwyr). Castell Caerdydd oedd yr ail atyniad â thâl yr ymwelwyd ag ef fwyaf (502,224 o ymwelwyr) a Fferm Folly oedd y trydydd atyniad â thâl yr ymwelwyd ag ef fwyaf (438,234 o ymwelwyr).
- 1.26 Ymhlith yr atyniadau â mynediad am ddim a ddarparodd ddata ar gyfer 2019, derbyniodd Canolfan Mileniwm Cymru, y prif atyniad am ddim yn 2018 hefyd, y nifer uchaf o ymwelwyr

(1,142,706¹). Parc Hwyl Tir Prince oedd yr ail atyniad am ddim yr ymwelwyd ag ef fwyaf (tua 1,000,000 o ymwelwyr), a Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru oedd y trydydd atyniad am ddim yr ymwelwyd ag ef fwyaf (746,105 o ymwelwyr).

Y prif atyniadau yn 2020

- 1.27 Yr atyniad â thâl a adroddodd y nifer uchaf o ymwelwyr yn 2020 oedd Fferm Folly (203,073 o ymwelwyr). Yr ail a'r trydydd atyniadau â thâl yr ymwelwyd â hwy fwyaf oedd Castell Caerdydd (195,930 o ymwelwyr) a Pharc Dŵr a Chyfadeilad Hamdden yr LC yn Abertawe (185,312 o ymwelwyr).
- 1.28 Ymhlith yr atyniadau â mynediad am ddim a ddarparodd ddata ar gyfer 2020, roedd Parc Gwledig Pen-bre yn cyfrif am y nifer uchaf o ymwelwyr (405,444). Daeth yr Wyddfa yn ail o ran nifer yr ymwelwyr (329,258 o ymwelwyr) a derbyniodd Canolfan Ymwelwyr Traphont Pontcysyllte a Basn Trefor y trydydd nifer mwyaf o ymwelwyr (275,336 o ymwelwyr). Cwmpodd Canolfan Mileniwm Cymru, y prif atyniad am ddim yng Nghymru yn 2019, i'r pumed safle ar y rhestr o'r deg prif atyniad am ddim (203,552 o ymwelwyr). Nid oedd Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, y trydydd atyniad am ddim yr ymwelwyd ag ef fwyaf yn 2019, ar y rhestr o'r deg prif atyniad ar gyfer 2020 (112,379 o ymwelwyr).

Ymweliadau yn 2019 a 2020 yn ôl rhanbarth

- 1.29 Derbyniodd atyniadau yng ngogledd Cymru a de-ddwyrain Cymru'r gyfran uchaf o ymweliadau yn 2019 (38% a 30% yn y drefn honno) ac yn 2020 (37% a 29%). Roedd atyniadau yn ne-orllewin Cymru yn cyfrif am 21% o ymweliadau yn 2019 a 23% o ymweliadau yn 2020, tra'r oedd atyniadau yng nghanolbarth Cymru yn cyfrif am tua un o bob deg o ymweliadau yn y ddwy flynedd.
- 1.30 Mae canran y gostyngiad mewn ymweliadau ar gyfartaledd fesul atyniad ar gyfer 2020 yn eithaf tebyg i ganolbarth Cymru, gogledd Cymru a de-ddwyrain Cymru (gostyngiad o 66%, 63% a 67% o 2019). Mae'r gostyngiad mewn ymweliadau ar gyfartaledd fesul atyniad yn is yn ne-orllewin Cymru (gostyngiad o 53% o 2019). Er bod hwn yn parhau i fod yn ostyngiad sylweddol.

¹Nid yw Canolfan Mileniwm Cymru, y gellir ei dosbarthu yn 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer perfformiadau ... theatraidd', yn dod o dan ddosbarthiad atyniad, oherwydd, a bod yn fanwl gywir, nid yw'n cael ei gategoreiddio yn 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol' ond yn hytrach, mae'n cynnwys theatr, adeilad o arwyddocâd pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigurau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn i Ganolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys mynychwyr theatr, nac ymwelwyr y mae prif bwrpas eu hymwelid yn gysylltiedig â'r theatr (e.e., prynu/casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, rhestrir Canolfan y Mileniwm yn yr adroddiad hwn, wrth gydnabod nad yw'n bodloni diffiniad atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Mae'n rhaid ystyried hyn wrth gymharu â chofnodion eraill.

Ymweliadau yn 2019 a 2020 yn ôl categori atyniad

- 1.31 Dosberthir atyniadau yn ôl math o leoliad – dan do, awyr agored, dan do ac awyr agored, neu danddaearol. Nid yw rhai atyniadau yn dod o dan un categori yn unig. Er enghraifft, mae gan rai atyniadau ardaloedd dan do ac awyr agored, ond maent yn atyniad dan do neu awyr agored yn bennaf. Serch hynny, mae data ar gyfer atyniadau dan do yn unig ac atyniadau awyr agored yn unig yn dangos y duedd ymwelwyr sy'n newid ar gyfer 2020.
- 1.32 Roedd atyniadau dan do yn cyfrif am 30% o ymweliadau yn 2019, ond dim ond 20% yn 2020, tra oedd atyniadau awyr agored yn cyfrif am 23% o ymweliadau yn 2019, ond cynyddodd hyn i 38% yn 2020. Roedd atyniadau sydd â rhannau dan do ac yn yr awyr agored yn cyfrif am 44% o ymweliadau yn 2019 a 41% yn 2020, tra oedd atyniadau tanddaearol yn cyfrif am 2% o ymweliadau yn y ddwy flynedd.
- 1.33 Y math o atyniad a ymwelwyd ag ef fwyaf yn 2018 oedd amgueddfeydd/orielau celf lle roeddent yn cyfrif am 25% o bob ymweliad ag atyniadau. Yn 2019, roedd amgueddfeydd/orielau celf yn cyfrif am tua'r un gyfran o bob ymweliad ag atyniadau (26%). Fodd bynnag, yn 2020, roedd ymweliadau ag amgueddfeydd/orielau celf ond yn cyfrif am 15% o bob ymweliad ag atyniadau. Roedd angen archebu tocyn i rai amgueddfeydd/orielau celf ymlaen llaw er mwyn cyfyngu ar nifer yr ymwelwyr ar unrhyw adeg (er mwyn sicrhau cadw pellter cymdeithasol), felly nid oedd yn syndod bod y mathau hyn o atyniadau yn cyfrif am lai o ymweliadau yn 2020.
- 1.34 Roedd gwarchodfeydd bywyd gwyllt/natur a pharciau/gerddi gwledig yn cyfrif am bron i hanner (45%) o ymweliadau ag atyniadau yn 2020, yn llawer uwch na'u cyfran o ymweliadau ar gyfer 2019 (26%). Yn 2018, roedd ymweliadau â gwarchodfeydd bywyd gwyllt/natur a pharciau gwledig/gerddi yn cyfrif am 32% o ymweliadau ag atyniadau.
- 1.35 Mae nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd fesul categori atyniadau hefyd yn dangos nad yw parciau/gerddi gwledig a gwarchodfeydd bywyd gwyllt/natur wedi cael effaith mor wael â chategoriâu eraill o atyniadau. Gostyngodd nifer yr ymwelwyr ar gyfartaledd ar gyfer parcio/gerddi gwledig gan 40% yn 2020, a gostyngodd nifer yr ymwelwyr ar gyfartaledd ar gyfer gwarchodfeydd bywyd gwyllt/natur gan 35%. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 63% yn nifer yr ymwelwyr yn gyffredinol ar gyfartaledd fesul atyniad.
- 1.36 Eto, mae hyn yn awgrymu na chafodd atyniadau awyr agored effaith mor wael ag atyniadau dan do, sydd i'w ddisgwyl efallai gan eu bod yn gallu agor yn gynharach a byddai wedi bod llai o risg wrth ymweld ag atyniadau awyr agored.
- 1.37 Ymhlith y categorïau atyniadau sy'n weddill, ymddengys bod atyniadau rheilffordd/teithio yn dioddef yn fwy nag eraill. Gwelodd yr atyniadau hyn rai o'r gostyngiadau mwyaf o flwyddyn i flwyddyn yn nifer yr ymwelwyr ar gyfartaledd yn 2020 o gymharu â 2019 (gostyngiad o 82%). Mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried y bydd atyniadau lle mae ymwelwyr fel arfer yn agos at ei gilydd wedi dioddef o ganlyniad i fesurau pellhau cymdeithasol.

Ymweliadau ar gyfartaledd yn ôl perchenogaeth ar gyfer 2019 a 2020

- 1.38 Gwnaeth nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd fesul safle Cadw ostwng o 51,425 yn 2019 i 10,386 yn 2020, gostyngiad o 80%. Cafodd Amgueddfa Cymru gyfartaledd o 278,827 o ymwelwyr fesul safle yn 2019, ond gostyngodd hyn i 49,895 yn 2020, gostyngiad o 82%. Ymhlith safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a oedd yn gallu darparu ffigurau ymwelwyr, cafodd y rhain gyfartaledd o 93,999 o ymwelwyr fesul safle yn 2019, ond cwmpodd hyn i 27,107 yn 2020, gostyngiad o 71%.
- 1.39 Effeithiwyd yn sylweddol ar nifer o'r atyniadau hyn oherwydd y gofynion cadw pellter cymdeithasol hefyd. Er enghraifft, er mwyn galluogi cadw pellter cymdeithasol, cyfyngodd nifer o'r sefydliadau hyn ar faint o ymwelwyr y gallai eu hatyniadau eu cynnal ar unrhyw adeg. Er y gallai rhai o'u hatyniadau fod wedi gwerthu allan ar yr adegau prysuraf, roedd nifer yr ymwelwyr y gallent eu cynnal yn llawer is na'r lefelau cyn y pandemig. Byddai'r atyniadau hyn fel arfer yn derbyn nifer sylweddol o deithiau ysgol drwy gydol y flwyddyn.
- 1.40 Er enghraifft, ar adegau yn ystod 2020, cyfyngodd Cadw ar nifer yr ymwelwyr mewn safleoedd â staff i un traean o'r capasiti arferol, er mwyn galluogi cadw pellter cymdeithasol a mesurau diogelwch COVID-19 eraill, a arweiniodd at nifer lai o ymwelwyr ar adegau wrth i alw fynd y tu hwnt i'r capasiti llai. Ymhellach, ailagorodd safleoedd â staff Cadw ar sail raddol o fis Awst 2020, ar ôl bod ar gau ers 23 Mawrth 2020. Digwyddodd y broses o ailagor dros nifer o fisoedd, ac arweiniodd hyn at y rhan fwyaf o safleoedd a staff yn ailagor erbyn diwedd mis Medi. Fodd bynnag, arhosodd rhai safleoedd tymhorol ar gau am weddill y flwyddyn ac roedd safleoedd eraill yn destun cyfyngiadau symud lleol, ynghyd â'r cyfnod atal byr cenedlaethol yn hwyrach yn y flwyddyn a gafodd effaith ar yr holl safleoedd.
- 1.41 O'i gymharu â'r ffigurau uchod, gostyngodd nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd fesul atyniad a weithredir gan awdurdodau lleol / parciau cenedlaethol o 92,898 yn 2019 i 46,879 yn 2020, gostyngiad o 50%. Gwnaeth nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd fesul atyniad a weithredir gan berchnogion / ymddiriedolaethau preifat ostwng o 58,781 yn 2019 i 20,170 yn 2020, gostyngiad o 66%. Er bod y rhain yn ostyngiadau sylweddol, nid oeddent mor fawr â'r gostyngiadau a welwyd gan Cadw, Amgueddfa Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth

- 1.42 Edrychodd yr adran hon o'r adroddiad ar atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 a 2019 (162 o atyniadau), a 2019 a 2020 (258 o atyniadau), er mwyn gwneud cymariaethau tebyg a'i debyg â niferoedd ymwelwyr cyffredinol.
- 1.43 Roedd nifer yr ymweliadau ag atyniadau a ddarparodd data ar gyfer 2018 a 2019 bron yr un faint. Derbyniodd yr atyniadau hyn 16,953,943 o ymwelwyr yn 2018, a 16,898,566 o ymwelwyr yn 2019. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 0.3% o un flwyddyn i'r llall yn 2019 o 2018.

- 1.44 Gwelodd atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 a 2020 ostyngiad o 68% mewn niferoedd yr ymwelwyr yn 2020 o gymharu â 2019. Derbyniodd yr atyniadau hyn 19,047,363 o ymweliadau yn 2019, ond gostyngodd y ffigwr hwn yn sylweddol i 6,139,493 yn 2020.
- 1.45 Yn unol â chanfyddiadau eraill, gwelodd parciau/gerddi gwledig a gwarchodfeydd bywyd gwyllt/natur a ddarparodd ddata am y ddwy flynedd niferoedd eu hymwelwyr yn gostwng (gostyngiad o 44% a 45%, yn y drefn honno), ond nid oedd y gostyngiad hwn cymaint â chategoriâu eraill. Mewn cymhariaeth, gwelodd amgueddfeydd/orielau celf ac atyniadau rheilffordd/teithio niferoedd eu hymwelwyr yn gostwng o 83%.
- 1.46 Nid yw'n syndod i'r atyniadau tanddaearol brofi'r gostyngiad mwyaf o un flwyddyn i'r llall mewn niferoedd ymwelwyr (gostyngiad o 81%). Fel yr awgrymwyd yn gynharach yn yr adroddiad, dioddefodd atyniadau dan do yn fwy nag atyniadau awyr agored. Gwelodd atyniadau dan do ostyngiad o 79% mewn ymwelwyr yn 2020 o'i gymharu â 2019, tra gwelodd atyniadau awyr agored ostyngiad o 49%.

Taliadau mynediad

- 1.47 Yn 2019, y tâl mynediad ar gyfartaledd ymhlith atyniadau a ymatebodd oedd £9.27, ac yn 2020, roedd yn £9.32. Wrth gymharu taliadau ar gyfer yr atyniadau a ddarparodd ddata am y ddwy flynedd, fel y gellir gwneud cymhariaeth tebyg i'w debyg, roedd y newid yn fach (gostyngiad o 1%).
- 1.48 Ar gyfer taliadau mynediad plant ar gyfartaledd, yn 2019, roedd y ffigwr hwn yn £5.72 ac yn 2020, roedd y ffigwr yn £6.16. Er, roedd y newid yn fach (gostyngiad o 3%) wrth gymharu taliadau ar gyfer yr atyniadau a ddarparodd ddata am y ddwy flynedd yn unig.
- 1.49 Roedd taliadau mynediad ar gyfartaledd yn ddrutach ar gyfer atyniadau antur/gweithgaredd. Yn 2019, y taliad mynediad ar gyfartaledd i oedolion oedd £15.81, ond yn 2020, roedd yn £16.10. Roedd y tâl mynediad i blant hefyd ar ei uchaf, sef £14.32 yn 2019 a £15.35 yn 2020.
- 1.50 Nid oedd y ffi mynediad ar gyfartaledd ar gyfer atyniadau rheilffordd/teithio yn wahanol iawn i'r rhai o atyniadau antur/gweithgaredd. Y tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion ar gyfer atyniadau rheilffordd/teithio oedd £14.28 yn 2019 a £15.58 yn 2020. Fodd bynnag, mae ffi mynediad ar gyfartaledd i blant ar gyfer yr atyniadau hyn yn llawer is, ar gyfartaledd o £5.84 yn 2019 a £6.82 yn 2020.

Symudiad refeniw gros

- 1.51 Adroddodd bron i hanner (47%) yr atyniadau dwf mewn refeniw yn 2018 o'i gymharu â 2017 (canlyniadau o'r arolwg blaenorol).
- 1.52 Fodd bynnag, roedd twf yn arafach yn 2019 gyda 52% o atyniadau yn adrodd refeniw tebyg i'r flwyddyn flaenorol. Wrth edrych ar ganlyniadau fesul math o leoliad, adroddodd 50% o atyniadau awyr agored gynnydd mewn refeniw yn 2019, ond dim ond 25% o atyniadau dan

do a adroddodd gynnydd mewn refeniw. Hefyd, gwelodd 47% o atyniadau sy'n cydnabod eu hunain fel atyniadau dan do ac awyr agored gynnydd mewn refeniw.

- 1.53 Nid yw'n syndod i'r rhan fwyaf (90%) o atyniadau adrodd gostyngiad mewn refeniw yn 2020. Nid yw'r canlyniadau'n amrywiol fesul math o leoliad.

Cyflogaeth yn 2019 a 2020

- 1.54 Yn 2019, roedd gweithwyr tymhorol di-dâl yn cyfrif am y gyfran fwyaf o weithwyr (43%). Fodd bynnag, yn 2020, gostyngodd nifer y gweithwyr tymhorol di-dâl yn sylweddol i 21% o staff mewn atyniadau yng Nghymru.
- 1.55 Wrth edrych ar ddata gan atyniadau yn unig a allai ddarparu ffigurau cyflogaeth ar gyfer y ddwy flynedd, mae hyn yn dangos yr oedd effaith waeth ar staff a gwirfoddolwyr tymhorol na staff parhaol. Gwelwyd gostyngiad o 6% yn unig mewn staff parhaol llawn amser ymhlith yr atyniadau sy'n darparu ffigurau cyflogaeth ar gyfer 2019 a 2020. Yn yr un modd, gwelwyd gostyngiad o 1% yn unig mewn staff parhaol rhan amser. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 48% mewn staff tymhorol llawn amser a gostyngiad o 22% mewn staff tymhorol rhan amser.
- 1.56 Fodd bynnag, ymddengys fod gwirfoddolwyr di-dâl wedi'u heffeithio fwyaf. Roedd gostyngiad o 57% yn nifer y gwirfoddolwyr tymhorol di-dâl yn 2020, a gostyngiad o 26% mewn gwirfoddolwyr parhaol di-dâl.
- 1.57 Gwelodd atyniadau rheilffordd/teithio'r gostyngiad mwyaf yn gyffredinol mewn nifer y staff (gan gynnwys gwirfoddolwyr). Gwelodd y rhain ostyngiad o 50% yng nghyfanswm y staff o'r gymharu â 2019. Yn nodweddiadol, mae'r mathau hyn o atyniadau yn dibynnu ar wirfoddolwyr i weithredu.

Tarddiad ymwelwyr ar gyfer 2019 a 2020

- 1.58 Nid yw'n syndod bod y gyfran o ymwelwyr dramor yn gostwng o 10% yn 2019 i 3% yn 2020. Cynyddodd cyfran yr ymwelwyr o Gymru o 47% yn 2019 i 59% yn 2020. Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu meddylfryd y cyhoedd i 'aros yn lleol', gan barhau gyda'r neges gan Lywodraeth Cymru yn gynharach yn y pandemig.

2. Cyflwyniad

Cefndir

2.1 Mae Croeso Cymru wedi bod yn cynnal yr Arolwg o Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth ers 1973. Cylch gwaith yr ymchwil yw:

- (1) Pennu ac adrodd ar niferoedd ymweliadau ag atyniadau ledled Cymru.
- (2) Dadansoddi data a gasglwyd ar niferoedd ymweliadau i nodi'r tueddiadau cyfredol.
- (3) Darparu dadansoddiad cymharol ychwanegol o'r data a gynhwysir yn yr arolwg gan gynnwys ffigurau ymweliadau, gweithrediadau, refeniw, marchnata ac adnoddau dynol.
- (4) Dadansoddi data yn ôl categorïau atyniadau, pedwar rhanbarth economaidd Cymru, a'r polisi codi tâl mynediad (am ddim yn erbyn â thâl).

Diffiniad o atyniad twristiaeth

2.2 Mae'r ymchwil yn defnyddio'r diffiniad o atyniad twristiaeth² a gytnwyd arno gan y pedwar Bwrdd Twristiaeth Cenedlaethol ar gyfer yr arolwg yn 2001, lle mae atyniad twristiaeth yn:

- (1) "...Atyniad, lle mae'n bosibl codi tâl am fynediad at y diben o weld golygfeydd yn unig. Mae'n rhaid i'r atyniad fod yn gyrchfan gwibdaith wedi'i sefydlu'n barhaol, a'i brif bwrpas yw caniatáu mynediad ar gyfer adloniant, diddordeb neu addysg, yn hytrach na bod yn safle manwerthu neu'n lleoliad ar gyfer perfformiadau chwaraeon, theatrig neu ffilm yn bennaf.

Mae'n rhaid iddo fod ar agor i'r cyhoedd sydd heb archebu ymlaen llaw, ar gyfer cyfnodau a gyhoeddir bob blwyddyn, a dylai allu denu ymwelwyr neu dwristiaid ynghyd â phreswylwyr lleol. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r atyniad fod yn fusnes unigol, o dan reolaeth unigol, er mwyn iddo allu ateb cwestiynau economaidd ar refeniw, cyflogaeth ac ati, ac mae'n rhaid iddo dderbyn refeniw yn uniongyrchol gan yr ymwelwyr."

² Mae'r diffiniad hwn yn cael effaith ar Ganolfan Mileniwm Cymru, a ellir ei dosbarthu fel 'safle manwerthu neu lleoliad ar gyfer perfformiadau ... theatraidd ...', a fyddai'n ei eithrio o'r ymchwil hon. Nid yw'r lleoliad yn dod o dan y dosbarthiad uchod yn daclus oherwydd, a bod yn fanwl gywir, nid yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol', ond yn hytrach, mae'n cynnwys theatr, adeilad o arwyddocâd pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigurau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn i Ganolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys mynychwyr theatr, nac ymwelwyr y mae prif bwrpas eu hymweliad yn gysylltiedig â'r theatr (e.e., prynu/casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, rhestrir Canolfan y Mileniwm yn y tudalennau canlynol, wrth gydnabod nad yw'n bodloni'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob agwedd. Mae'n rhaid ystyried hyn wrth gymharu â chofnodion eraill.

Amcanion

- 2.3 Pwrpas yr adroddiad hwn yw monitro tueddiadau'r sector atyniadau twristiaeth yng Nghymru er mwyn darparu gwell dealltwriaeth o'r sector i sefydliadau'r diwydiant a'r sector cyhoeddus ac i ledaenu'r canfyddiadau mewn ffordd ddefnyddiol a gwerthfawr i'r diwydiant ehangach.

Gohirio arolwg 2019

- 2.4 Cynhelir yr Arolwg o Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth bob blwyddyn, ac mae arolwg pob blwyddyn yn gofyn am ffigurau am y flwyddyn flaenorol. Mae hyn er mwyn sicrhau y gall atyniadau ddarparu eu ffigurau ymwelwyr erbyn i'r arolwg gael ei gynnal.
- 2.5 Cafodd yr Arolwg o Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth ar gyfer 2019, a gynlluniwyd i gael ei gynnal yn 2020, ei ohirio yn sgil pandemig COVID-19. Roedd llawer o atyniadau ar gael, sy'n golygu nad oedd yn bosibl cynnal yr arolwg.
- 2.6 O ganlyniad i hyn, gofynnwyd i atyniadau am eu data am ymwelwyr ar gyfer 2019 a 2020 trwy un arolwg, a gynhaliwyd yn 2021. Adroddir ar ganlyniadau i bob blwyddyn ar wahân.

Crynodeb economaidd y DU ar gyfer 2019 a 2020

- 2.7 Profodd y DU dwf cymharol fach yn 2019 o 1.4%, oedd bron yr un fath â'r twf mewn cynnyrch domestig gros a brofwyd yn 2018 (1.3%)³. Fodd bynnag, arafodd y twf i sero am y tri mis olaf o 2019. Teimlodd daroganwyr i'r DU gael ei gwangalonni gan dwf byd-eang arafach ac ansicrwydd sy'n ymwneud â Brexit⁴.
- 2.8 Stopiodd economïau'r byd yn sydyn ar ddechrau 2020 wrth i bandemig COVID-19 ddechrau. Yn gyffredinol, crebachodd economï'r DU o 9.8% yn 2020. Roedd llawer o'r crebachu hwn yn ystod chwarter cyntaf ac ail chwarter 2020. Yn ystod Ch1, crebachodd yr economi o 2.7% ac o 19.6% yn Ch2. Cododd yr economi o 17.4% yn Ch3 wrth i'r economi ailagor yn rhannol, er nad oedd yn ddigon i fod yn ôl i lefelau cyn y pandemig. Gwelodd yr economi dwf cymharol fach o 1.1.% yn Ch4.
- 2.9 Dengys ddata o Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth COVID-19⁵ a gynhaliwyd rhwng 31 Awst 2020 a 2 Hydref 2020 (y don ddiweddaraf yn 2020) fod 15% o boblogaeth Cymru wedi'u 'taro'n galed' yn ariannol gan COVID-19, ond dywedodd 40% eu bod yn 'iawn, ond yn gorfod bod yn ofalus'. Dywedodd 36% nad effeithiwyd arnynt a dywedodd 9% eu bod ar eu hennill.
- 2.10 Mae data o'r un arolwg hefyd yn dangos bod y cyhoedd yn fwy hyderus wrth gynnal gweithgareddau o ddydd i ddydd a oedd yn cael eu cynnal yn yr awyr agored o'i gymharu â gweithgareddau dan do. Er enghraifft, dywedodd 81% o'r Cymry eu bod yn gyfforddus yn 'mynd am dro mewn parc gwledig / llwybr lleol', ond dim ond 20% a oedd yn teimlo'n

³Swyddfa Ystadegau Gwladol: [GDP: Year on Year Growth](#)

⁴Bank of England: [Monetary Policy Report - January 2020](#)

⁵ [Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth COVID-19 \(proffil Cymru\):31 Awst i 10 Medi 2021](#)

gyfforddus yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r lefelau cysur hyn yn ymddangos i adlewyrchu'r mathau o atyniadau ymwelwyr y dywedodd ymatebwyr eu bod yn bwriadu ymweld â nhw. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn fwy tebygol o ymweld â 'gerddi neu barciau gwledig', ac yn llai tebygol o ymweld ag atyniadau tanddaearol, neu atyniadau dan do.

Amserlen COVID-19

- 2.11 Datganodd Sefydliad Iechyd y Byd fod COVID-19 yn bandemig ar 11 Mawrth 2020. Ar 20 Mawrth 2020, cyhoeddodd Prif Weinidog y DU fod y Llywodraeth yn "dweud wrth gaffis, tafarndai, bwytai i gau heno" ynghyd â "chlybiau nos, theatrau, sinemâu, campfeydd a chanolfannau hamdden". Arweiniodd hyn at gyfnod o gyfyngiadau symud llawn ar 23 Mawrth 2020. Gwnaeth y Prif Weinidog a Phrif Weinidogion Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ddatganiadau ar y diwrnod hwn (23 Mawrth 2020), yn amlinellu'r mesurau newydd. Roedd yn ofynnol i bobl 'aros gartref' ac roedd siopau a mannau cymunedol ar gau.
- 2.12 Ar 29 Mai 2020, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y byddai'r neges 'aros gartref' yng Nghymru yn newid i 'aros yn lleol' o 1 Mehefin.
- 2.13 O 6 Gorffennaf 2020, roedd atyniadau i ymwelwyr yn yr awyr agored yn gallu ailagor.
- 2.14 Ar 11 Gorffennaf, roedd caniatâd i lety i dwristiaid heb gyfleusterau a rennir ailagor.
- 2.15 Yn fuan ar ôl hyn, ar 13 Gorffennaf, roedd caniatâd i nifer o wasanaethau a busnesau ailagor, gan gynnwys y rhan fwyaf o atyniadau dan do i ymwelwyr. Fodd bynnag, roedd busnesau yn parhau i weithredu o dan ganllawiau cadw pellter cymdeithasol. I fusnesau lle nad oedd cadw pellter cymdeithasol o ddau fetr yn bosibl, roedd y rheoliadau'n gofyn i'r busnesau hyn roi mesurau ychwanegol ar waith i leihau'r risg o ledaenu COVID-19, gan gynnwys lleihau cyswllt agos wyneb yn wyneb a chynnal safonau hylendid da.
- 2.16 Roedd caniatâd i lety i dwristiaid heb gyfleusterau a rennir ailagor ar 25 Gorffennaf. Roedd atyniadau tanddaearol yn gallu ailagor o'r dyddiad hwn hefyd.
- 2.17 Dechreuodd achosion o'r coronafeirws godi eto ym mis Medi, yn dilyn cyfnod a welodd ostyngiad yn lefelau yr achosion dros haf 2020. Gweithredwyd nifer o gyfyngiadau symud mewn awdurdodau lleol ar ôl hynny, gyda Chaerffili fel yr awdurdod lleol cyntaf i gael ei rhoi o dan 'gyfyngiadau symud lleol' ar 7 Medi 2020. Ni chaniatawyd i unrhyw un adael ardal awdurdod lleol dan gyfyngiadau symud heb reswm da, ac ni chaniatawyd i unrhyw un fynd i mewn.
- 2.18 Dechreuodd 'cyfnod atal byr' am bythefnos ar 23 Hydref a daeth i ben ar 9 Tachwedd. Aeth Llywodraeth Cymru yn ôl at y neges o 'aros gartref', a chaeodd pob busnes nad oeddent yn hanfodol, gan gynnwys atyniadau i dwristiaid.
- 2.19 Gydag achosion o COVID-19 yn codi eto ar ôl y cyfnod atal byr, a'r brigiad o'r amrywiolyn 'Delta', daeth mesurau newydd i rym ar 4 Rhagfyr 2020. Fel rhan o'r mesurau, gorchmynnwyd i atyniadau adloniant dan do ac atyniadau i ymwelwyr gau.

- 2.20 Wrth i achosion barhau i gynyddu, gorchmynnwyd i atyniadau awyr agored gau hefyd o 14 Rhagfyr.
- 2.21 Ar y cyfan, roedd atyniadau awyr agored yn gallu agor am oddeutu 31 wythnos o'r flwyddyn, tra oedd modd i atyniadau dan do agor am oddeutu 29 wythnos, ac atyniadau tanddaearol am oddeutu 27 wythnos.

Ffigurau ymwelwyr y DU ar gyfer 2019 a 2020

- 2.22 Roedd 40.9 miliwn o ymweliadau i mewn i'r DU yn 2019, 1% yn fwy nag ymweliadau yn 2018⁶. Roedd cynnydd o 6.8% hefyd yn 2019 mewn ymweliadau dros nos i Gymru gan breswylwyr Prydain, cyfanswm o 10.7 miliwn o deithiau⁷. Cododd nifer y teithiau a gymerwyd yng Nghymru gan ymwelwyr rhyngwladol hefyd, o 3.6% i ychydig dros un miliwn o ymweliadau (1,023,000). Fodd bynnag, gostyngodd nifer yr ymweliadau dydd yng Nghymru gan 8.8%, a gwelwyd gostyngiad gan 14% mewn gwariant cysylltiedig.
- 2.23 Derbyniodd y DU 11.1 miliwn o ymweliadau i mewn yn 2020, gostyngiad o 73% o 2019. Roedd y mwyafrif (63%) o ymweliadau yn y chwarter cyntaf cyn i gyfyngiadau teithio bydeang ddod i rym. Y gostyngiad yn ystod Ch1 oedd 16%, ond profodd ostyngiad pellach gan 96% yn Ch2. Roedd Ch3 i lawr gan 80% a Ch4 gan 87%.
- 2.24 Nid yw data pellach ar ymweliadau ar gyfer 2020 ar gael yn sgil pandemig COVID-19. Fodd bynnag, dengys Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth COVID-19⁸ bod 6% o boblogaeth y DU wedi ymweld ag atyniad dan do ym mis Ionawr a mis Chwefror 2020, pan oedd atyniadau ar agor. Mae hyn yn cymharu â 4% yn unig ym mis Awst a mis Medi, yn nodweddiadol rhai o'r misoedd prysuraf i atyniadau, a dim ond 1% ym mis Rhagfyr.

Crynodeb o'r hinsawdd ar gyfer 2019 a 2020

- 2.25 Roedd 2019 yn gynhesach na'r cyfartaledd i'r DU, er nad oedd mor gynnes â 2018 a 2017. Roedd cyfnodau cynnes a oedd yn torri recordiau ym mis Chwefror a mis Gorffennaf, a gwers a dorrodd record ar gyfer gwyliau banc y Pasg a gŵyl y banc diwedd mis Awst, a oedd wedi helpu atyniadau i ymwelwyr yn ddi-os. Fodd bynnag, roedd yn flwyddyn eithaf gwlyb, gyda mwy o lawiad nag arfer ym mis Mawrth ac wedyn y rhan fwyaf o fisoedd o fis Mehefin ymlaen. Roedd cyfres o ddigwyddiadau o lawiad trwm ym mis Chwefror, Mawrth, Ebrill a Mehefin, a sawl achos o lifogydd o ddiwedd mis Gorffennaf ymlaen.
- 2.26 Roedd 2020 hefyd yn gynhesach na'r cyfartaledd i'r DU, ac mae wedi'i restru fel y drydedd flwyddyn gynhesaf mewn cyfres ers 1884. Roedd sawl cyfnod cynnes byr, gan gynnwys penwythnos gŵyl y banc y Pasg, er cafodd hyn effaith fach, neu ddim effaith o gwbl ar

⁶ [Visit Britain 2019 Snapshot](#)

⁷ [Llywodraeth Cymru: Adroddiad Perfformiad Twristiaeth Cymru 2019](#)

⁸ [Arolwg Tracio Defnyddwyr Twristiaeth COVID-19](#)

atyniadau gan eu bod ar gau. Serch hynny, roedd sawl cyfnod poeth yn ystod yr haf hefyd. Roedd tymereddau'n fwy na 30°C mewn rhannau o'r DU ar 13 o ddiwrnodau yn ystod yr haf, gan gynnwys un diwrnod poeth olaf ar 15 Medi. Fodd bynnag, yn union fel 2019, roedd 2020 hefyd yn flwyddyn eithaf gwlyb, gyda'r mis Chwefror gwlypaf ar record, ac roedd pob mis yn yr haf yn wlypach na'r cyfartaledd. Roedd mis Hydref a Rhagfyr hefyd yn wlypach na'r cyfartaledd.

3. Methodoleg

Cynnal yr ymchwiliad

- 3.1 Dechreuodd gwaith maes ar gyfer yr arolwg 2019 a 2020 ym mis Chwefror 2021 a gorffennodd ym mis Medi 2021. Gan ystyried yr anawsterau ynghylch COVID-19, roedd angen mwy o amser na'r arfer ar rai atyniadau er mwyn cwblhau'r arolwg.
- 3.2 Cyn i waith maes ddechrau, cafodd y gronfa ddata o atyniadau ei diweddarau i gynnwys atyniadau newydd.
- 3.3 Anfonwyd dolen dros e-bost ar gyfer yr atyniadau ar 4 Chwefror 2021. Dilynwyd hyn gyda thair neges atgoffa, ac wedyn galwadau ffôn dilynol i'r rhai na ymatebodd i'r negeseuon e-bost. Cynorthwyodd Croeso Cymru gyda negeseuon atgoffa pellach wedi'u teilwra i atyniadau mawr ym mis Awst a mis Medi. Caeodd yr arolwg ar 13 Medi.
- 3.4 Gwahoddwyd sefydliadau â nifer fawr o atyniadau i gwblhau taenlen yn hytrach nag arolwg ar-lein ar gyfer pob un o'u safleoedd. Roedd y sefydliadau hyn yn cynnwys Amgueddfa Cymru, Cadw, Dŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru a RSPB Cymru. Roedd y sefydliadau hyn yn gallu darparu data ar gyfer 64 o atyniadau, allan o gyfanswm o 89 o atyniadau y gofynnwyd am ddata ar eu cyfer.
- 3.5 Roedd yr holiadur yn seiliedig ar yr holiadur a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol i sicrhau y gellir cymharu rhwng blynyddoedd gwahanol. Gofynnwyd ychydig o gwestiynau ychwanegol ynghylch pandemig COVID-19. Roedd yr arolwg a holl ddeunydd yr arolwg ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Cyfweliadau manwl

- 3.6 Cynhaliwyd 15 o gyfweliadau manwl dros y ffôn hefyd gydag atyniadau ym mis Awst a mis Medi 2021. Nod y cyfweliadau manwl oedd archwilio rhai o'r pynciau a oedd yn dod i'r amlwg o'r data cychwynnol, a chael llun cyfredol o sut mae atyniadau'n dod yn eu blaen ar hyn o bryd yn sgil pandemig COVID-19.
- 3.7 Gofynnwyd y canlynol i atyniadau:
 - (1) Sut y maent yn coladu ffigurau ymwelwyr a sut y maent yn amcangyfrif cyfran eu hymwelwyr sy'n oedolion neu blant, a'r gyfran o Gymru, gweddill y DU neu dramor.
 - (2) Pu'n a yw'r pandemig wedi newid eu prisiau mynediad, eu cynnig digidol, y ffordd y maent yn gweithredu, anawsterau wrth gadw gwirfoddolwyr, a chynlluniau ar gyfer 2022.

Cyfradd ymateb

3.8 Gwahoddwyd cyfanswm o 569 o atyniadau ⁹ y credir eu bod yn bodloni'r diffiniad o dwristiaid i gymryd rhan. Nodir y gyfradd ymateb ar gyfer eleni a blynyddoedd blaenorol yn Nhabl 3.1 isod.

Tabl 3.1 Cyfradd ymateb

Cyfraddau ymateb	2020	2019	2018	2017	2016**	2014
Cyfanswm yr atyniadau a gysylltwyd â nhw	569	569	570	571	609	478
Atyniadau sy'n cwblhau'r arolwg	260* 46%	299 53%	248 44%	237 42%	216 35%	146 30%
Atyniadau a ymatebodd ond nad oeddent yn gallu darparu ffigurau***	73 13%	34 6%	20 4%	1 0.2%	Amh.	9 2%
CYFANSWM Y GYFRADD YMATEB	333 59%	333 59%	268 47%	238 42%	216 35%	155 32%

* Mae atyniadau a oedd ar gau yn 2020 wedi'u cynnwys yn y gyfran sy'n cwblhau'r arolwg, oherwydd gwnaethant ddarparu data rhannol er nad oeddent ar gael i ymwelwyr yn sgil pandemig COVID-19.

** Cynhaliwyd arolwg cyfyngedig yn fewnol gan Croeso Cymru yn 2015, felly nid oes unrhyw ddata y gellir ei gymharu ar gael ar gyfer y flwyddyn hon.

*** Cyn arolwg 2019 a 2020, roedd y rhes hon yn cynnwys atyniadau a ymatebodd i ddweud eu bod ar gau.

3.9 Cyfanswm y gyfradd ymateb i'r arolwg 2019 a 2020 oedd 59% – yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol. Roedd 53% o'r atyniadau a gysylltwyd â nhw yn gallu darparu data ar gyfer 2019, a roedd 46% yn gallu darparu data ar gyfer 2020.

3.10 Mae adborth anecdotaidd yn awgrymu na chasglodd rai atyniadau ffigurau fel arfer yn 2020, neu nid oeddent wedi cyfrif nifer eu hymwelwyr ar gyfer 2020 eto, neu nid oedd ganddynt fynediad at y wybodaeth hon.

⁹Mae hyn yn cynnwys 480 o atyniadau unigol ynghyd â sefydliadau sy'n cyfrif am nifer o atyniadau twristiaeth yng Nghymru a gysylltwyd â nhw ar wahân, a ddarparodd ddata ar gyfer 89 o atyniadau.

Dull cofnodi ar gyfer nifer yr ymwelwyr

- 3.11 Er mwyn asesu dibynadwyedd nifer yr ymwelwyr a ddarparwyd gan atyniadau, gofynnwyd i atyniadau sut y maent yn cyfrif nifer eu hymwelwyr. Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 3.2 isod.
- 3.12 Mae'r ffigurau'n fwy na 100% gan fod rhai atyniadau'n sôn am nifer o ddulliau. Mae canlyniadau o'r arolwg 2018 wedi'u hychwanegu i'w cymharu.

Tabl 3.2 Dull cofnodi ar gyfer nifer yr ymwelwyr

Dull cofnodi	Nifer (2018)	% (2018)	Nifer (2019)	% (2019)	Nifer (2020)	% (2020)
O werthiannau tocynnau / neu werthiannau archebion grŵp	85	36%	140	47%	109	49%
Dull mecanyddol neu electronig o gyfrif (e.e. giât dro)	60	26%	97	32%	58	26%
Dull â llaw o gyfrif niferoedd	55	24%	72	24%	46	21%
Amcangyfrif yn unig	21	9%	51	17%	36	16%
Amcangyfrif yn unig ar sail cyfrif sampl	12	5%	10	3%	7	3%
Arall	25	11%	18	6%	14	6%

Sampl: Atyniadau sy'n darparu data ar ddulliau cyfrif (233 – 2018, 299 – 2019, 221 - 2020)

- 3.13 Mae'r gyfran sy'n seilio eu ffigurau ymwelwyr ar gyfer 2019 a 2020 fel 'amcangyfrifon yn unig' yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, gall hyn fod o ganlyniad i gynnydd mewn atyniadau bach ac unigol yn cwblhau'r arolwg sy'n fwy tebygol o ddibynnu ar amcangyfrifon nag atyniadau mwy.
- 3.14 Dywedodd ychydig o'r rhai a gafodd eu cyfweld ar gyfer y cyfweiliadau manwl nad oedd ganddynt fynediad at y wybodaeth y byddai ganddynt fel arfer. Roedd y rhesymau dros hyn yn amrywiol ac yn dibynnu ar yr atyniad, ond mae'r rhesymau a roddwyd yn cynnwys y canlynol:
- (1) Ni chasglodd yr atyniad ffigurau ymwelwyr yn 2020 fel y byddai fel arfer, gan gynnwys atyniadau awyr agored a fyddai fel arfer wedi seilio eu niferoedd ar ymwelwyr i'r ganolfan ymwelwyr, ond roedd y ganolfan ar gau yn 2020.
 - (2) Ni chwblhawyd ffigurau ymwelwyr ar gyfer 2019 neu 2020 yn sgil y pandemig, felly mae amcangyfrifon wedi'u seilio ar p'un a oedd y cynrychiolydd yn teimlo bod ymweliadau wedi cynyddu neu ostwng yn seiliedig ar ddata sydd ganddynt ar gyfer 2018.
 - (3) Dim yn cael mynediad at y data y byddai ganddynt fel arfer. Naill ai oherwydd bod yr atyniad ar gau / ei fod yn parhau i fod ar gau, felly ni all cynrychiolydd yr atyniad gyrchu'r data, neu mae'r aelod o staff sydd fel arfer yn delio â materion o'r fath ar ffyrlo.

- 3.15 Mae dulliau cofnodi ar gyfer 2019 a 2020 yn debyg iawn, er bod canran yr atyniadau sy'n cofnodi nifer yr ymwelwyr trwy ddulliau mecanyddol neu electronig wedi gostwng. Mae hyn oherwydd bod un o'r sefydliadau mwy, sy'n cyfrif am sawl atyniad, wedi newid y ffordd y mae'n cyfrif ffigurau ar gyfer 2020 dros dro wrth iddo symud i system TG newydd.
- 3.16 Mae dulliau 'eraill' ar gyfer cofnodi nifer yr ymwelwyr yn cynnwys gwerthiannau caffi, ystafell de neu siop, adolygiad o lyfr ymwelwyr, a bocsys gonestrwydd. Mae'r rhain yn cynrychioli atyniadau bach iawn.

Nodiadau ar yr adroddiad

- 3.17 Mae'r adroddiad hwn y canolbwyntio ar ffigurau ymwelwyr ar gyfer 2019 a 2020. Fodd bynnag, mae cymariaethau wedi'u gwneud gyda data o 2018 lle y teimlwyd y byddai o fudd gwneud hynny.
- 3.18 Trwy gydol yr adroddiad hwn, mae samplau o ddeg neu lai wedi'u lliwio'n goch a'u dangos mewn italig er mwyn nodi'r angen i gymryd gofal wrth ddehongli'r canlyniadau. Mae'r data wedi'i ddadansoddi fesul rhanbarth, perchenogaeth, categori a newidion eraill os yw canlyniadau wedi haeddu dadansoddiad ychwanegol, ac os yw maint y sampl yn caniatáu.
- 3.19 Mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli atyniadau sydd wedi cwblhau'r arolwg, ac nid pob atyniad ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth o atyniadau mawr yng Nghymru wedi cwblhau'r arolwg, a chyflawnwyd cyfradd ymateb uchel. Felly, dylai'r arolwg roi amlinelliad cywir o dueddiadau yn y sector.
- 3.20 Gall maint y sampl amrywio rhwng cwestiynau gwahanol, yn enwedig ar gyfer data 2020. Ni allai rai atyniadau ateb pob rhan o'r arolwg sy'n ymwneud â 2020.
- 3.21 Mae'n bwysig nodi bod rhai o'r gwahaniaethau rhwng y deg atyniad am ddim ac atyniad â thâl oherwydd na allent rhai atyniadau ddarparu ffigurau ymwelwyr ar gyfer 2020.

4. Cyfran o atyniadau ar agor yn 2019 a 2020

- 4.1 Mae Tabl 4.1 isod yn dangos cyfran yr atyniadau a oedd ar agor bob mis.
- 4.2 Roedd cyfran debyg o atyniadau ar agor ym mis Ionawr a Chwefror yn y ddwy flynedd. Fodd bynnag, wrth i'r pandemig ddechrau ym mis Mawrth 2020, roedd llai o atyniadau ar agor. Ym mis Mawrth 2019, roedd 80% o'r atyniadau sy'n darparu data ar agor, ond gostyngodd y ffigwr hwn i 57% ar gyfer mis Mawrth 2020.
- 4.3 Ym mis Ebrill a Mai 2020, roedd 3% o atyniadau sy'n darparu data ar agor. Ni chaniatawyd i atyniadau agor ar yr adeg hon, ond mae'r atyniadau hyn yn cynrychioli atyniadau awyr agored sy'n darparu mynediad cyhoeddus i ymarfer corff.
- 4.4 Cynyddodd y gyfran a oedd ar agor i 60% erbyn mis Medi – y gyfran uchaf a oedd ar agor ers dechrau'r pandemig. Fodd bynnag, dechreuodd cyfran yr atyniadau a oedd ar agor ostwng ar ôl mis Medi, ac ym mis Rhagfyr, dim ond 26% o atyniadau oedd ar gael.
- 4.5 Roedd 15% o'r atyniadau sy'n ymateb i'r arolwg ar gau trwy gydol 2020, tra oedd 18% o atyniadau ar agor ar ryw adeg rhwng mis Ionawr a Mawrth ond wedyn ar gau am weddill y flwyddyn. Felly, nid oedd traean (33%) yr atyniadau ar agor o gwbl rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2020.

Tabl 4.1 Cyfran yr atyniadau ar agor fesul mis

Mis	% ar agor ym mis 2019	% ar agor ym mis 2020
Ionawr	69%	62%
Chwefror	74%	67%
Mawrth	80%	57%
Ebrill	95%	3%
Mai	96%	3%
Mehefin	97%	5%
Gorffennaf	98%	33%
Awst	97%	53%
Medi	97%	60%
Hydref	92%	48%
Tachwedd	76%	34%
Rhagfyr	74%	26%
Ar gau drwy gydol y flwyddyn	Amherthnasol	15%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 (299) a 2020 (260); gan gynnwys atyniadau a oedd ar gau am y flwyddyn gyfan yn 2020

- 4.6 Mae Tabl 4.2 yn dangos cyfran yr atyniadau a oedd ar agor bob mis yn 2020 fesul math o leoliad.
- 4.7 Dosbarthir atyniadau yn ôl math o leoliad – dan do, awyr agored, dan do ac awyr agored, neu tanddaearol. Nid yw rhai atyniadau yn dod o dan un categori yn unig. Er enghraifft, mae gan rai atyniadau ardaloedd dan do ac awyr agored ond yn atyniad dan do neu awyr agored yn bennaf. Serch hynny, mae'r canlyniadau ar gyfer atyniadau dan do yn unig ac atyniadau awyr agored yn unig yn dangos y gwahaniaeth mewn cyfran yr atyniadau dan do ac awyr agored a oedd ar agor bob mis.
- 4.8 Ym mis Awst 2020 – un o'r misoedd brysura i atyniadau, dim ond 34% o atyniadau dan do oedd ar agor, ond roedd cyfran sylweddol uwch o atyniadau awyr agored ar agor (73%).

Tabl 4.2 Math o leoliad ar agor fesul mis yn 2020

Mis	Dan do	Awyr agored	Y ddau - dan do ac awyr agored	Tanddaearol
Ionawr	70%	60%	55%	50%
Chwefror	71%	69%	64%	50%
Mawrth	57%	56%	57%	50%
Ebrill	0%	10%	2%	0%
Mai	1%	8%	4%	0%
Mehefin	2%	10%	6%	0%
Gorffennaf	16%	54%	37%	50%
Awst	34%	73%	62%	50%
Medi	45%	69%	68%	67%
Hydref	32%	56%	58%	33%
Tachwedd	27%	40%	39%	17%
Rhagfyr	14%	38%	33%	0%
Ar gau drwy gydol y flwyddyn	17%	10%	15%	33%

Sampl: Atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2020 dan do (96), awyr agored (48), y ddau (110), tanddaearol (6)

Rhybudd: Meintiau sampl bach ar gyfer rhai atyniadau tanddaearol

- 4.9 Gofynnwyd i atyniadau a wnaethant ddewis cau ar unrhyw adeg, ar adeg y byddent fel arfer wedi bod ar agor, ac yn gallu agor. Dywedodd dros hanner (57%) yr atyniadau eu bod yn dewis aros ar agor pryd bynnag y caniateir iddynt wneud hynny. Dywedodd 38% eu bod wedi dewis cau ar ryw adeg oherwydd COVID-19, er y gallent ailagor, a dywedodd 5% eu bod wedi dewis cau, hyd yn oed pan allent ailagor, ond am resymau nad oeddent yn gysylltiedig â COVID-19.

Capasiti gweithredu yn ystod y pandemig

- 4.10 Gofynnwyd i atyniadau a oedd ar agor ar unrhyw adeg rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2020 at ba ganran o'u capasiti arferol yr oeddent yn gweithredu arni, ar gyfartaledd, pan oeddent ar agor.
- 4.11 Roedd un ym mhob 10 o atyniadau (10%) yn gweithredu ar gapasiti o lai na 20% o'u capasiti arferol, ond oedd ychydig yn llai na hanner (46%) yn gweithredu ar gapasiti rhwng 20% a 49% o'u capasiti arferol. Roedd 28% yn gweithredu ar gapasiti rhwng 50% a 79% o'u capasiti arferol, ac roedd 7% yn gweithredu ar gapasiti rhwng 80% a 99% o'u capasiti arferol. Roedd tua un o bob deg (9%) o atyniadau yn agor ar gapasiti llawn.

Tabl 4.3 Capasiti gweithredu yn ystod y pandemig

Lefel o gapasiti ar gyfartaledd	%
Ar agor ar gapasiti llawn	9%
90 - 99%	1%
80 - 89%	6%
70 - 79%	5%
60 - 69%	9%
50 - 59%	14%
40 - 49%	14%
30 - 39%	18%
20 - 29%	14%
10 - 19%	5%
Llai na 10%	5%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data (154)

- 4.12 Mae'r gyfran o atyniadau dan do ac awyr agored a oedd yn gweithredu i'w capasiti llawn yn debyg (12% ac 13% yn y drefn honno). Fodd bynnag, cyfran yr atyniadau dan do a oedd yn gweithredu ar gapasiti o lai na hanner oedd 64%, ond dim ond 27% o atyniadau awyr agored oedd yn gweithredu ar gapasiti o lai hanner.
- 4.13 Trwy gydol 2020, dangosodd arolwg¹⁰ effaith coronafeirws Baromedr Twristiaeth fod perfformiad busnesau twristiaeth yn cyd-fynd yn gryf â'u capasiti gweithredu.

¹⁰ [Baromedr Twristiaeth \(Arolwg effaith coronafeirws \(COVID-19\)\): cam 5 2020](#)

5. Y deg prif atyniad am ddim ac â thâl

Y deg prif atyniad â thâl 2019

- 5.1 Yr atyniad â thâl a nododd y nifer uchaf o ymwelwyr yn 2019, fel mewn blynyddoedd blaenorol, oedd Parc Dŵr a Chyfadeilad Hamdden yr LC yn Abertawe (678,714 o ymwelwyr). Mae hyn er gwaethaf gostyngiad o 12% mewn ymwelwyr yn 2019 o 2018. Mae'r pedwar brif atyniad â thâl yr un peth ag yn 2018, a bron yn yr un drefn, gyda Chastell Caerdydd yn dod yr ail atyniad â thâl yr ymwelwyd ag ef fwyaf ar gyfer 2019 (y trydydd yn flaenorol), a Fferm Folly yn dod y trydydd atyniad â thâl yr ymwelwyd ag ef fwyaf (yn ail yn flaenorol).
- 5.2 Mae dau atyniad yn ymddangos yn y deg prif atyniad nad oeddent yn ymddangos yn 2018. Y rhain yw Portmeirion a Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri. Mae'r ddau yma yn gofnodion newydd i'r arolwg, ac ni wnaethant gwblhau'r arolwg yn 2018. Mae Zip World a Nova Prestatyn yn cwympo allan o'r prif deg o 2018. Gadawodd y ddau o'r rhain y deg prif atyniad yn sgil gostyngiad mewn nifer yr ymwelwyr yn 2019. Mae saith o'r deg prif atyniad â thâl yng ngogledd Cymru, ac mae pedwar o'r prif deg dan berchnogaeth breifat.
- 5.3 Derbyniodd y deg prif atyniad ar gyfer 2019 oddeutu 3.1 miliwn o ymwelwyr – bron â bod yr un nifer ag yn 2018 (3.2 miliwn). Mae hyn yn cyfrif am 33% o'r holl ymweliadau a wnaed ag atyniadau â thâl.
- 5.4 Gall y nifer amcangyfrifedig o ymwelwyr fod yn seiliedig ar ddata cadarn a gedwir gan atyniadau neu samplau o nifer yr ymwelwyr, er bod rhai, gan gynnwys rhai o'r deg prif atyniad yn 2019 a 2020, yn seiliedig ar amcangyfrifon yn unig.

Tabl 5.1 Y deg prif atyniad â thâl 2019

Enw	Rhanbarth	Perchennog	Categori	Ymweliadau 2018	Ymweliadau 2019	% newid	£ Oedolion
1 Parc Dŵr a Chyfadeilad Hamdden yr LC Abertawe	D-o	PB	Thema	772,000	678,714*	-12%	£8.00
2 Castell Caerdydd	D-dd	ALI/PC	EH	452,007	502,224*	+11%	£13.50
3 Fferm Folly	D-o	PB	Fferm	455,428	438,234	-4%	£16.50
4 Gardd Bodnant	G	YG	PG	260,153	271,339	+4%	£15.40
5 Portmeirion	G	PB	EH	Amh.	245,690	Amh.	£13.00
6 Zip World Fforest	G	PB	A/G	195,000*	223,500*	+15%	£25.00
7 Castell Conwy	G	Cadw	EH	201,961	212,364	+5%	£9.90
8 Castell Caernarfon	G	Cadw	EH	205,009	199,074	-3%	£9.90
9 Tramffordd y Gogarth	G	ALI/PC	Rh/T	191,613*	190,227	-1%	£8.10
10 Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri	G	ALI/PC	Rh/T	Amh.	186,205	Amh.	£43.00

Fel y nodwyd yn gynharach, mae ffigurau wedi'u dynodi â seren (*) yn cynnwys ffigurau ymwelwyr amcangyfrifedig.

Y deg atyniad uchaf â thâl 2020

- 5.5 Yr atyniad â thâl sy'n adrodd y nifer uchaf o ymwelwyr yn 2020 oedd Fferm Folly (203,073 o ymwelwyr). Roedd y chwe phrif atyniad ar gyfer 2020 hefyd yn y rhestr o'r chwe phrif atyniad ar gyfer 2019, ond ddim o reidrwydd yn yr un drefn.
- 5.6 Sw Fynydd Gymreig, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Zip World Chwarel y Penrhyn a Gerddi Dyffryn yn cyrraedd rhestr y deg prif atyniad â thâl ar gyfer 2020.
- 5.7 Mae dau eiddo Cadw yn cwmpo allan o'r deg atyniad taledig gorau ar gyfer 2020 – Castell Conwy (35,553 o ymwelwyr) a Chastell Caernarfon (25,321 o ymwelwyr). Gadawodd Rheilffyrdd Ffestiniog ac Eryri (dim ffigurau ar gael ar gyfer 2020) a Thramffordd y Gogarth (ar gau drwy'r flwyddyn) y rhestr hefyd.
- 5.8 Ymhlith y deg prif atyniad â thâl, gwelodd Parc Dŵr a Chyfadeilad Hamdden yr LC Abertawe y gostyngiad mwyaf mewn ymweliadau yn 2020 (newid o -73% o 2019). Derbyniodd y deg prif atyniad â thâl ar gyfer 2020 oddeutu 1.3 miliwn o ymwelwyr. Mae hyn yn cyfrif am 51% o'r holl ymweliadau a wnaed i'r atyniadau â thâl a gwblhaodd yr arolwg. Mae hwn yn gynnydd o 2019 (33%), a allai awgrymu bod atyniadau llai wedi dioddef yn fwy o ran nifer yr ymwelwyr.

Tabl 5.2 Y Deg prif atyniad â thâl 2020

	Enw	Rhanbarth	Perchennog	Categori	Ymweliadau 2019	Ymweliadau 2020	% newid	£ Oedolion
1	Fferm Folly	De-o	PB	Fferm	438,234	203,073	-54%	£16.95
2	Castell Caerdydd	D-dd	ALI/PC	EH	502,224*	195,930	-61%	£13.50
3	Parc Dŵr a Chyfadeilad Hamdden y LC Abertawe	De-o	PB	Thema	678,714*	185,312*	-73%	£8.00
4	Portmeirion	G	PB	EH	245,690	128,596	-48%	£13.00
5	Zip World Fforest	G	PB	A/G	223,500*	121,035*	-46%	£25.00
6	Gardd Bodnant	G	YG	PG	271,339	106,728	-61%	£8.00
7	Sw Fynydd Gymreig	G	PB	BG	163,299	97,770	-40%	£13.75
8	Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	De-o	PB	PG	163,096	91,610	-44%	£11.50
9	Zip World Chwarel y Penrhyn	G	PB	A/G	145,000*	80,600*	-44%	£99.00
10	Gerddi Dyffryn	D-dd	YG	PG	167,389	79,723	-52%	ND

Fel y nodwyd yn gynharach, mae ffigurau wedi'u dynodi â seren (*) yn cynnwys ffigurau ymwelwyr amcangyfrifedig.

Y deg prif atyniad am ddim 2019

- 5.9 Ymhlith yr atyniadau â mynediad am ddim sy'n darparu data ar gyfer 2019, derbyniodd Canolfan Mileniwm Cymru'r nifer uchaf o ymwelwyr (1,142,706). Mae hyn er gwaethaf y gostyngiad o 35% mewn ymwelwyr o'r gymharu â 2018, er bod nifer yr ymwelwyr ar gyfer 2019 yn unol â nifer yr ymwelwyr ar gyfer 2017 (1,082,494).

- 5.10 Mae'r saith prif atyniad am ddim ar gyfer 2019 yr un peth â'r rhai ar gyfer 2018, ac maent bron â bod yn yr yn drefn.
- 5.11 Nid oedd dau o'r prif atyniadau ar gyfer 2018, sef Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch a Pharc Coedwig Gwydir, yn gallu cwblhau arolwg 2019 (yn flaenorol yr wythfed a'r nawfed atyniad am ddim yr ymwelwyd â nhw fwyaf yn 2018). Mae Canolfan Ymwelwyr Llandegfedd ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn cyrraedd y deg prif atyniad, ond roedd Canolfan Ymwelwyr Traphont Pontcysyllte a Basn Trefor eisoes yn y prif ddeg yn 2018.
- 5.12 Derbyniodd y deg atyniad rhad ac am ddim gorau ar gyfer 2019 oddeutu 6.3 miliwn o ymwelwyr – yn debyg i 2018 (6.7 miliwn o ymwelwyr). Mae hyn yn cyfrif am 50% o bob ymweliad a wnaed i atyniadau am ddim (yr yn peth ag yn 2018).

Tabl 5.3 Y deg prif atyniad am ddim ar gyfer 2019

	Enw	Rhanbarth	Perchenn -og	Categori	Ymwelia- dau 2018	Ymwelia- dau 2019	% newid
1	Canolfan Mileniwm Cymru ¹¹	D-dd	PB	AOC	1,762,281*	1,142,706*	-35%
2	Parc Hwyl Tir Prince	G	PB	Thema	900,000*	1,000,000*	+11%
3	Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru	D-dd	AC	AOC	636,859	746,105	+17%
4	Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth	C	PB	AOC	600,000*	658,088	+10%
5	Parc Gwledig Pen-bre	De-o	ALI/PC	PG	520,000*	611,114	+18%
6	Cerddwyr ar yr Wyddfa ¹²	G	ALI/PC	BG	557,991	590,984	+6%
7	Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd	D-dd	AC	AOC	488,809	584,256	+20%
8	Canolfan Ymwelwyr Traphont Pontcysyllte a Basn Trefor	G	PB	EH	342,620	410,041*	+20%
9	Canolfan Ymwelwyr Llandegfedd	D-dd	DC	BG	188,720*	285,029	+51%
10	Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe	De-o	AC	AOC	285,340	275,242	-4%

Fel y nodwyd yn gynharach, mae ffigurau wedi'u dynodi â seren (*) yn cynnwys ffigurau ymwelwyr amcangyfrifedig.

¹¹ Nid yw Canolfan Mileniwm Cymru, a allai gael ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer perfformiadau ... theatraidd ...', yn dod o dan ddosbarthiad atyniad, oherwydd, a bod yn fanwl gywir, nid yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol' ond yn hytrach, mae'n cynnwys theatr, adeilad o arwyddocâd pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw'r ffigurau ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn i Ganolfan Mileniwm Cymru yn cynnwys mynychwyr theatr, nac ymwelwyr y mae prif bwrpas eu hymweliad yn gysylltiedig â'r theatr (e.e., prynu/casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, rhestrir Canolfan y Mileniwm yn yr adroddiad hwn, wrth gydnabod nad yw'n bodloni'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Mae'n rhaid ystyried hyn wrth gymharu â chofnodion eraill.

¹² Roedd data yn yr adroddiad blaenorol ar gyfer 2018 yn seiliedig ar amcangyfrifon a ddarparwyd gan Ganolfan Ymwelwyr yr Wyddfa. Mae ffigurau ar gyfer 2019 wedi cael eu darparu gan Barc Cenedlaethol Eryri. Mae'r canlyniadau ar gyfer 2018 yn yr adroddiad hwn wedi'i seilio ar ffigurau gan Barc Cenedlaethol Eryri, fel y gellir gwneud cymariaethau tebyg a'i debyg.

Y deg prif atyniad am ddim 2020

- 5.13 Ymhlith yr atyniadau â mynediad am ddim sy'n darparu data ar gyfer 2020, roedd Parc Gwledig Pen-bre yn cyfrif am y nifer uchaf o ymwelwyr (405,444). Mae hyn er gwaethaf gostyngiad o 34% mewn nifer yr ymwelwyr o'i gymharu â 2019. Gwelodd y prif atyniad am ddim o 2019, sef Canolfan Mileniwm Cymru, ostyngiad o 82% mewn ymwelwyr yn 2020.
- 5.14 Mae pedwar atyniad yn cyrraedd y prif ddeg. Mae'r rhain fel a ganlyn: Parc Gwledig Dyfroedd Alun, Llynnoedd a Pharc Gwledig Cosmeston, Gwarchodfa'r Stagbwll a Gwarchodfa Genedlaethol Ynys Las.
- 5.15 Cafodd cyfyngiadau ar atyniadau awyr agored eu llacio cyn atyniadau dan do. Nid yw'n syndod bod y mathau hyn o atyniadau'n ymddangos yn fwy amlwg yn y deg prif atyniad ar gyfer 2020.
- 5.16 Gadawodd y canlynol restr y prif ddeg atyniad ar gyfer 2020: Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru (112,379 o ymwelwyr), Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth (55,580 o ymwelwyr) ac Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe (52,672). Nid oedd Parc Hwyl Tir Prince (yr ail atyniad am ddim yr ymwelwyd ag ef fwyaf yn 2019) yn gallu darparu ffigurau ar gyfer 2020.
- 5.17 Gwelodd Canolfan Mileniwm Cymru'r gostyngiad mwyaf mewn ymwelwyr (gostyngiad o 82%), wedi'i dilyn gan Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (gostyngiad o 78%). Derbyniodd y deg prif atyniad ar gyfer 2020 oddeutu 2.2 miliwn o ymwelwyr. Mae hyn yn cyfrif am 60% o'r holl ymweliadau a wnaed ag atyniadau am ddim. Mae hyn yn gynydd o 2019 (50%), sy'n awgrymu unwaith eto bod atyniadau llai wedi'u heffeithio'n waeth o'u cymharu ag atyniadau mwy.

Tabl 5.4 Y deg prif atyniad am ddim ar gyfer 2020

Enw	Rhanbarth	Perchenn -og	Categori	Ymweliad- au 2019	Ymweliad- au 2020	% newid
1 Parc Gwledig Pen-bre	De-o	ALI/PC	PG	611,114	405,444	-34%
2 Cerddwyr ar yr Wyddfa	G	ALI/PC	BG	590,984	329,258	-44%
3 Canolfan Ymwelwyr Traphont Pontcysyllte a Basn Trefor	G	PB	EH	410,041*	275,336*	-33%
4 Parc Gwledig Dyfroedd Alun	G	ALI/PC	PG	258,764*	258,764*	0%
5 Canolfan Mileniwm Cymru	D-dd	PB	AOC	1,142,706*	203,552*	-82%
6 Canolfan Ymwelwyr Llandegfedd	D-dd	DC	BG	285,029	180,779	-37%
7 Llynnoedd a Pharc Gwledig Cosmeston	D-dd	ALI/PC	PG	250,000*	150,000*	-40%
8 Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd	D-dd	AC	AOC	584,256	130,563	-78%
9 Gwarchodfa'r Stagbwll	De-o	YG	BG	256,746	129,753	-49%
10 Gwarchodfa Natur Genedlaethol Ynys Las	C	CNC	BG	126,111	120,000*	-40%

Fel y nodwyd yn gynharach, mae ffigurau wedi'u dynodi â seren (*) yn cynnwys ffigurau ymwelwyr amcangyfrifedig.

6. Ymweliadau 2019 a 2020

- 6.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno dadansoddiad o ddata'r ymweliadau ar gyfer 2019 a 2020. Sylwer nad yw'r holl samplau'r un maint gan na chwblhaodd pob ymatebwr holl adrannau'r holiadur ar draws y ddwy flynedd. Mae'r rhai sydd ddim wedi cwblhau'r adrannau perthnasol wedi'u hepgor o'r tablau ond maent wedi'u cynnwys mewn manau eraill lle maent wedi darparu data.
- 6.2 Yn yr adran hon, mae data ar gyfer 2019 a 2020 yn aml yn cael ei arddangos yn yr un tabl. Er y gellir gwneud cymariaethau rhesymol, mae adran 7 yn dadansoddi canlyniadau o atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 a 2020, fel y gellir gwneud cymariaethau tebyg a'i debyg. Byddwch yn ymwybodol bod data a samplau ar gyfer y ddwy adran yn gallu bod ychydig yn wahanol.

Ymweliadau ar y cyfan ar gyfer 2019 a 2020

- 6.3 Ar gyfartaledd, bu oddeutu 22.3 miliwn o ymweliadau ag atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019, ond bu oddeutu 6.2 miliwn o ymweliadau ag atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2020.
- 6.4 Roedd y 25 o brif atyniadau yn 2019 yn cyfrif am bron i hanner o bob ymweliad a gofnodwyd yn 2019 (49% o ymweliadau, ac 10,838,139 o ymweliadau yn gyfan gwbl). Yn 2020, roedd y 25 o atyniadau mwyaf poblogaidd yn cyfrif am 64% o ymweliadau (3,950,766 o ymweliadau yn gyfan gwbl).

Cyfanswm yr ymweliadau yn ôl y math o fynediad

- 6.5 Mae'r gyfran o ymweliadau ag atyniadau am ddim ac atyniadau â thâl bron yr un peth ar gyfer 2019 a 2020. Yn 2019, roedd 57% o ymweliadau ag atyniadau am ddim ac yn 2020, roedd 59% o ymweliadau ag atyniadau am ddim. Yn yr un modd, yn 2019, roedd 43% o ymweliadau ag atyniadau â thâl, ac yn 2020, roedd 41% o ymweliadau ag atyniadau â thâl. Mae'r ffigurau hyn hefyd yn debyg i 2018 (roedd 61% o ymweliadau ag atyniadau am ddim ac roedd 39% o ymweliadau ag atyniadau â thâl).

Tabl 6.1 Cyfanswm yr ymweliadau yn ôl y math o fynediad

Math o fynediad	Sampl 2019	% o atyniadau 2019	Ymweliadau 2019	% o ymweliadau 2019	Sampl 2020	% o atyniadau 2020	Ymweliadau 2020	% o ymweliadau 2020
Am ddim	126	42%	12,702,217	57%	95	43%	3,623,235	59%
Â thâl	173	58%	9,617,123	43%	126	57%	2,545,803	41%
Cyfanswm	299	100%	22,319,340	100%	221	100%	6,169,038	100%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 (299) a 2020 ac roedd ar agor (221)

Cyfanswm yr ymweliadau fesul rhanbarth ar gyfer 2019 a 2020

- 6.6 Derbyniodd atyniadau a oedd yn cymryd rhan yn yr ymchwil yng ngogledd Cymru a de-ddwyrain Cymru y gyfran uchaf o ymweliadau yn 2019 (38% a 30% yn y drefn honno) ac yn 2020 (37% a 29%).
- 6.7 Roedd y ddau ranbarth hyn yn nodi'r gyfran uchaf o ymweliadau yn 2019, ac yn 2020, o gymharu â'u cyfran o atyniadau. Er enghraifft, cyfran yr atyniadau a oedd yn cwblhau'r arolwg o ogledd Cymru oedd 33% ar gyfer 2020, ond roedd yr atyniadau hyn yn cyfrif am 37% o ymweliadau yn 2020.
- 6.8 Roedd ymweliadau ag atyniadau yng nghanolbarth Cymru a De-orllewin Cymru yn cyfrif am lai na'u cyfran o atyniadau ar gyfer 2019, ond roedd hyn hefyd yn wir ar gyfer ymweliadau ag atyniadau yng nghanolbarth Cymru ar gyfer 2020, fel y dangosir yn Nhabl 6.2 isod.
- 6.9 Mae canran yr ymweliadau ag atyniadau ym mhob rhanbarth yn tebyg ar gyfer 2019 a 2020, sy'n awgrymu bod atyniadau o bob rhanbarth wedi cael eu taro'n gyfartal gan y pandemig.
- 6.10 Mae canran yr ymweliadau fesul rhanbarth hefyd yn debyg i'r ffigurau o 2018. Yn 2018, roedd 10% o ymweliadau ag atyniadau yng nghanolbarth Cymru, roedd 40% o ymweliadau ag atyniadau yng ngogledd Cymru, 30% o ymweliadau ag atyniadau yn ne-ddwyrain Cymru a 21% o ymweliadau ag atyniadau yn ne-orllewin Cymru.

Tabl 6.2 Cyfanswm yr ymweliadau fesul rhanbarth ar gyfer 2019 a 2020

Rhanbarth	Sampl 2019	% o atyniadau 2019	Ymweliadau 2019	% o ymweliadau 2019	Sampl 2020	% o atyniadau 2020	Ymweliadau 2020	% o ymweliadau 2020
Canolbarth	52	17%	2,395,503	11%	41	19%	647,184	10%
Gogledd	100	33%	8,521,679	38%	73	33%	2,287,654	37%
De-ddwyrain	73	24%	6,723,297	30%	59	27%	1,799,472	29%
De-orllewin	74	25%	4,678,861	21%	48	22%	1,434,728	23%
Cyfanswm	299	100%	22,319,340	100%	221	100%	6,169,038	100%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 (299) a 2020, ac oedd ar agor (221)

Ymweliadau ar gyfartaledd fesul rhanbarth ar gyfer 2019 a 2020

- 6.11 Roedd nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd â phob atyniad ar gyfer 2019 (74,647) yn is na nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd yn 2018 (89,610). Gall hyn fod o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyfradd ymateb yn 2019 o'i gymharu â 2018, gan i fwy o atyniadau bach gwblhau'r arolwg.
- 6.12 Mae nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd ar gyfer 2020 (27,914), a ddangosir yn nhabl 6.3 isod, yn dangos yr effaith a gafodd y pandemig ar atyniadau yn 2020.

- 6.13 Mae nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd ag atyniadau yn nghanolbarth Cymru ar gyfer 2019 a 2020 (46,067 a 15,785, yn y drefn honno) yn is na nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd ag atyniadau mewn rhanbarthau eraill. Mae hyn yn awgrymu bod cyfran fwy o atyniadau llai yng nghanolbarth Cymru.
- 6.14 Mae'r newid mewn nifer yr ymwelwyr ar gyfartaledd ar gyfer 2020 ym mhob rhanbarth yn eithaf tebyg, er bod y newid yn llai difrifol ar gyfer De-orllewin Cymru, a welodd ostyngiad o 53% mewn nifer yr ymwelwyr ar gyfartaledd fesul atyniad. Er bod hwn yn parhau i fod yn ostyngiad sylweddol.

Tabl 6.3 Ymweliadau ar gyfartaledd fesul rhanbarth ar gyfer 2019 a 2020

Rhanbarth	Sampl 2019	Ymweliadau ar gyfartaledd fesul atyniad 2019	Sampl 2020	Ymweliadau ar gyfartaledd fesul atyniad 2020	% newid
Canolbarth	52	46,067	41	15,785	-66%
Gogledd	100	85,217	73	31,338	-63%
De-ddwyrain	73	92,100	59	30,500	-67%
De-orllewin	74	63,228	48	29,890	-53%
Cyfanswm	299	74,647	221	27,914	-63%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 (299) a 2020, ac oedd ar agor (221)

Cyfanswm yr ymweliadau fesul categori atyniad ar gyfer 2019 a 2020

- 6.15 Y mathau o atyniadau a ymwelwyd â nhw fwyaf yn 2018 oedd amgueddfeydd/orielau celf (25%). Roedd ymweliadau ag amgueddfeydd/orielau celf yn cyfrif am bron â bod yr un gyfran â'r holl ymweliadau ag atyniadau yn 2019 (26%). Roedd y rhan fwyaf yn rhain yn ymweliadau ag atyniadau am ddim. Mae ymweliadau ag amgueddfeydd/orielau celf am ddim yn cyfrif am 24% o'r holl ymweliadau yn 2019.
- 6.16 Roedd ymweliadau ag amgueddfeydd/orielau celf ddim ond yn cyfrif am 15% o'r holl ymweliadau ag atyniadau yn 2020, er gwaethaf y ffaith bod y mathau hyn o atyniad yn cyfrif am 27% o'r sampl.
- 6.17 Yn 2018, cyfrifodd ymweliadau â gwarchodfeydd bywyd gwylt/natur a pharciau gwledig/gerddi am gyfanswm o 32% o ymweliadau ag atyniadau. Yn 2019, cyfrifodd y ddau categori hyn am gyfran debyg o ymweliadau – 26%. Fodd bynnag, yn 2020, cyfrifon y rhain am bron i hanner (45%) yr ymweliadau ag atyniadau.
- 6.18 Mae hyn yn awgrymu na chafodd atyniadau awyr agored eu heffeithio mor wael o'u cymharu ag atyniadau dan do, sydd i'w ddisgwyl gan eu bod yn gallu agor yn gynharach a byddai llai o risg ynghlwm wrth ymweld ag atyniadau awyr agored. Caiff hyn ei archwilio dros y dudalen.

Tabl 6.4 Cyfanswm yr ymweliadau fesul categori atyniad ar gyfer 2019 a 2020

Categori atyniad	Sampl 2019	% o atyniadau 2019	Ymweliad- au 2019	% o ymweliadau 2019	Sampl 2020	% o atyniadau 2020	Ymweliad- au 2020	% o ymweliadau 2020
Atyniad antur / gweithgaredd	30	10%	1,832,741	8%	25	11%	653,002	11%
Parc gwledig / gardd	28	9%	2,824,701	13%	22	10%	1,336,478	22%
Fferm / bridiau prin	7	2%	589,811	3%	6	3%	258,208	4%
Atyniad bwyd neu ddiod	15	5%	210,054	1%	11	5%	48,188	1%
Eiddo hanesyddol	67	22%	4,501,615	20%	50	23%	1,098,385	18%
Atyniad diwydiannol / crefft	12	4%	244,728	1%	9	4%	45,379	1%
Amgueddfa / oriel gelf	83	28%	5,762,758	26%	59	27%	952,026	15%
Rheilffordd / teithio	20	7%	1,183,513	5%	12	5%	130,991	2%
Canolfan wyddoniaeth / technoleg	3	1%	167,219	1%	2	1%	27,759	0%
Parc thema / hamdden	3	1%	1,828,714	8%	1	0%	185,312	3%
Gwarchodfa bywyd gwyllt neu natur	26	9%	2,931,717	13%	19	9%	1,394,557	23%
Atyniad arall	5	2%	241,769	1%	5	2%	38,753	1%
Cyfanswm	299	100%	22,319,340	100%	221	100%	6,169,038	100%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 (299) a 2020, ac oedd ar agor (221)

Rhybudd: meintiau sampl bach

Ymweliadau ar gyfartaledd fesul categori atyniad ar gyfer 2019 a 2020

- 6.19 Mae nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd fesul categori atyniadau hefyd yn dangos nad yw parciau/gerddi gwledig a gwarchodfeydd bywyd gwyllt/natur wedi cael eu heffeithio mor wael â chategoriâu eraill o atyniadau. Cwmpodd nifer yr ymwelwyr ar gyfartaledd ar gyfer parcio/gerddi gwledig o 40% yn 2020, ond cwmpodd nifer yr ymwelwyr ar gyfartaledd ar gyfer gwarchodfeydd bywyd gwyllt/natur o 35%. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 63% yn nifer yr ymwelwyr ar y cyfan ar gyfartaledd fesul atyniad.
- 6.20 Gwelodd atyniadau rheilffordd / teithio'r gostyngiad mwyaf o un flwyddyn i'r llall mewn niferoedd yr ymwelwyr ar gyfartaledd (gostyngiad o 82%). Mae hyn i'w ddisgwyl o ystyried y bydd atyniadau lle mae ymwelwyr fel arfer yn agos at ei gilydd wedi dioddef o ganlyniad i fesurau pellhau cymdeithasol. Yn yr un modd, roedd angen archebu rhai amgueddfeydd/orielau celf ymlaen llaw, er mwyn cyfyngu nifer yr ymwelwyr ar unrhyw adeg (er mwyn sicrhau cadw pellter cymdeithasol), felly nid yw'n syndod i'r mathau hyn o atyniad weld gostyngiad gan 77% mewn ymwelwyr ar gyfartaledd fesul atyniad.

Tabl 6.5 Ymweliadau ar gyfartaledd fesul categori atyniad ar gyfer 2019 a 2020

Categori atyniad	Sampl 2019	Ymweliadau ar gyfartaledd 2019	Sampl 2020	Ymweliadau ar gyfartaledd 2020	% newid
Atyniad antur / gweithgaredd	30	61,091	25	26,120	-57%
Parc gwledig / gardd	28	100,882	22	60,749	-40%
Fferm / bridiau prin	7	84,259	6	43,035	-49%
Atyniad bwyd neu ddiod	15	14,004	11	4,381	-69%
Eiddo hanesyddol	67	67,188	50	21,968	-67%
Atyniad diwydiannol / crefft	12	20,394	9	5,042	-75%
Amgueddfa / oriel gelf	83	69,431	59	16,136	-77%
Rheilffordd / teithio	20	59,176	12	10,916	-82%
Canolfan wyddoniaeth / technoleg	3	55,740	2	13,880	-75%
Parc thema / hamdden	3	609,571	1	185,312	-70%
Gwarchodfa bywyd gwyllt neu natur	26	112,758	19	73,398	-35%
Atyniad arall	5	48,354	5	7,751	-84%
Cyfanswm	299	74,647	221	27,914	-63%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 (299) a 2020, ac oedd ar agor (221)

Rhybudd: meintiau sampl bach

Cyfanswm yr ymweliadau fesul math o leoliad ar gyfer 2019 a 2020

6.21 Mae data ar gyfer atyniadau dan do ac awyr agored yn dangos y duedd ymwelwyr sy'n newid ar gyfer 2020.

6.22 Roedd atyniadau dan do yn cyfrif am 30% o ymweliadau yn 2019, ond dim ond 20% yn 2020, tra oedd atyniadau awyr agored yn cyfrif am 23% o ymweliadau yn 2019, ond cynyddodd y ffigwr hwn i 38% yn 2020.

Tabl 6.6 Cyfanswm yr ymweliadau fesul math o leoliad ar gyfer 2019 a 2020

Categori atyniad	Sampl 2019	% o atyniadau 2019	Ymweliad- au 2019	% o ymweliad- au 2019	Sampl 2020	% o atyniadau 2020	Ymweliad- au 2020	% o ymweliad- au 2020
Dan do	114	38%	6,747,031	30%	80	36%	1,224,527	20%
Awyr agored	57	19%	5,234,728	23%	43	19%	2,343,340	38%
Y ddau - dan do ac awyr agored	122	41%	9,832,766	44%	94	43%	2,503,228	41%
Tanddaearol	6	2%	504,815	2%	4	2%	97,943	2%
Cyfanswm	299	100%	22,319,340	100%	221	100%	6,169,038	100%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 (299) a 2020, ac oedd ar agor (221)

Rhybudd: meintiau sampl bach (ar gyfer atyniadau tanddaearol)

Cyfanswm yr ymweliadau fesul perchnogaeth ar gyfer 2019 a 2020

- 6.23 Derbyniodd atyniadau perchnogaeth breifat y gyfran uchaf o ymweliadau yn 2019 a 2020 (48% a 43% yn y drefn honno). Mae'r gyfran hon ychydig yn llai na chyfran yr atyniadau perchnogaeth breifat yn y sampl ar gyfer y ddwy flynedd (61% a 59% yn y drefn honno).
- 6.24 Derbyniodd atyniadau sy'n perthyn i awdurdodau lleol neu barciau cenedlaethol gyfran uwch o ymweliad na'u cyfran yn y sampl. Roedd yr atyniadau hyn yn cyfrif am 22% o ymweliadau yn 2019 ond eu cyfran yn y sampl oedd 17% yn unig, ac yn 2020, gwnaethant gyfrif am 27% o ymweliadau ond eu cyfran yn y sampl oedd 16% yn unig.
- 6.25 Hefyd, derbyniodd Amgueddfa Cymru gyfran uwch o ymweliadau na'i gyfran yn y sampl ar gyfer 2019. Cyfrifodd ei atyniadau am ddim ond 2% o atyniadau yn 2019, ond 9% o gyfanswm yr ymweliadau ar gyfer y flwyddyn honno. Yn 2020, roedd ei chyfran o ymweliadau (6%) yn debychach i'w chyfran yn y sampl (3%).
- 6.26 Roedd cyfran yr ymweliadau ar gyfer y mathau o berchnogaeth sy'n weddill yn eithaf tebyg i'w cyfran yn y sampl.

Tabl 6.7 Cyfanswm yr ymweliadau fesul perchnogaeth ar gyfer 2019 a 2020

Rhanbarth	Sampl 2019	% o atyniadau 2019	Ymweliad- au 2019	% o ymweliad- au 2019	Sampl 2020	% o atyniadau 2020	Ymweliad- au 2020	% o ymweliad- au 2020
Cadw	24	8%	1,234,199	6%	19	9%	197,331	3%
Awdurdod Lleol / Parc Cenedlaethol	52	17%	4,830,702	22%	36	16%	1,687,645	27%
Amgueddfa Cymru	7	2%	1,951,792	9%	7	3%	349,264	6%
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	21	7%	1,973,980	9%	18	8%	487,917	8%
Cyfoeth Naturiol Cymru**	5	2%	541,286	2%	3	1%	256,000	4%
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	183	61%	10,756,866	48%	131	59%	2,642,237	43%
RSPB	4	1%	389,240	2%	4	2%	171,641	3%
Dŵr Cymru	3	1%	641,275	3%	3	1%	377,003	6%
Cyfanswm	299	100%	22,319,340	100%	221	100%	6,169,038	100%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 (299) a 2020, ac oedd ar agor (221)

Sylwer y gallai rhai sefydliadau ddarparu data ar gyfer ychydig o'u safleoedd yn unig

**Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu darparu data ar gyfer 5 o'i 29 o safleoedd yn unig.

Ymweliadau ar gyfartaledd yn ôl perchenogaeth ar gyfer 2019 a 2020

- 6.27 Gostyngodd nifer yr ymwelwyr ar gyfartaledd fesul atyniad yn sylweddol ar gyfer rhai o'r sefydliadau mwy, megis Cadw, Amgueddfa Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Gostyngodd nifer yr ymweliadau ar gyfartaledd fesul safle Cadw o 51,425 yn 2019 i 10,386 yn 2020, gostyngiad o 80%. Roedd gan Amgueddfa Cymru gyfartaledd o 278,827 o ymwelwyr fesul safle yn 2019, ond gostyngodd hyn i 49,895 fesul safle yn 2020, gostyngiad o 82%. Roedd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyfartaledd o 93,999 o ymwelwyr fesul safle yn 2019, ond gostyngodd hyn i 27,107 yn 2020, gostyngiad o 71%.
- 6.28 Gall hyn fod oherwydd i'r atyniadau hyn gael eu heffeithio'n sylweddol gan ofynion cadw pellter cymdeithasol. Er enghraifft, er mwyn galluogi cadw pellter cymdeithasol, cyfyngodd nifer o'r sefydliadau hyn ar faint o ymwelwyr y gallai eu hatyniadau eu cynnal ar unrhyw adeg. Er y gallai rhai o'u hatyniadau fod wedi gwerthu allan ar yr adegau prysuraf, roedd nifer yr ymwelwyr y gallent eu cynnal llawer yn is na'r lefelau cyn y pandemig. Byddai'r atyniadau hyn fel arfer yn derbyn nifer sylweddol o deithiau ysgol drwy gydol y flwyddyn.

Tabl 6.8 Ymweliadau ar gyfartaledd yn ôl perchenogaeth ar gyfer 2019 a 2020

Categori atyniad	Sampl 2019	Ymweliadau ar gyfartaledd yn 2019	Sampl 2020	Ymweliadau ar gyfartaledd yn 2020	% newid
Cadw	24	51,425	19	10,386	-80%
Awdurdod Lleol / Parc Cenedlaethol	52	92,898	36	46,879	-50%
Amgueddfa Cymru	7	278,827	7	49,895	-82%
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	21	93,999	18	27,107	-71%
Cyfoeth Naturiol Cymru**	5	108,257	3	85,333	-21%
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	183	58,781	131	20,170	-66%
RSPB	4	97,310	4	42,910	-56%
Dŵr Cymru	3	213,758	3	125,668	-41%
Cyfanswm	299	74,647	221	27,914	-63%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 (299) a 2020, ac oedd ar agor (221)

Sylwer y gallai rhai sefydliadau ddarparu data ar gyfer ychydig o'u safleoedd yn unig

Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu darparu data ar gyfer 5 o'i 29 o safleoedd yn unig ar gyfer 2019, a 3 o'i safleoedd ar gyfer 2020.

Cyfanswm yr ymweliadau yn ôl amrywiaeth o ymweliadau

- 6.29 Fel y dangosir yn nhabl 6.9 isod, adroddodd 24 o atyniadau iddynt dderbyn 200,000 neu fwy o ymwelwyr yn 2019. Cynrychiolodd yr ymweliadau â'r 24 o atyniadau hyn bron i hanner (48%) o ymweliadau â'r holl atyniadau yn 2019. Mae hyn yn debyg i 2018, lle adroddodd 23 o atyniadau 200,000 neu fwy o ymwelwyr, sy'n cynrychioli 49% o gyfanswm yr ymweliadau yn 2018.
- 6.30 Ymhlith y 24 o atyniadau a adroddodd 200,00 neu fwy o ymwelwyr yn 2019, nid oedd 17 ohonynt yn codi tâl am fynediad. Mae'r 17 o atyniadau am ddim hyn yn cynrychioli 36% o'r holl ymweliadau yn 2019.
- 6.31 Dim ond chwe atyniad a adroddodd 200,00 neu fwy o ymwelwyr ar gyfer 2020. Ar ben arall y raddfa, adroddodd 30 o atyniadau lai na 2,000 o ymwelwyr yn 2019, ond dyblodd hyn i 61 yn 2020.

Tabl 6.9 Cyfanswm yr ymweliadau yn ôl amrywiaeth o ymweliadau

Amrywiaeth o gyfanswm yr ymweliadau	Sampl 2019	Ymweliadau 2019	% o ymweliadau 2019	Sampl 2020	Ymweliadau 2020	% o ymweliadau 2020
0 - 1,999	30	30,376	0%	61	35,662	1%
2,000 - 4,999	29	98,264	0%	33	106,620	2%
5,000 - 9,999	31	208,044	1%	31	226,600	4%
10,000 - 19,999	39	556,557	2%	40	581,030	9%
20,000 - 49,999	63	1,906,981	9%	22	720,300	12%
50,000 - 99,999	44	3,146,492	14%	16	1,152,411	19%
100,000 - 149,999	21	2,617,409	12%	8	958,967	16%
150,000 - 199,999	18	3,116,152	14%	4	712,021	12%
200,000+	24	10,639,065	48%	6	1,675,427	27%
Cyfanswm	299	22,319,340	100%	221	6,169,038	100%

Sampl: atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 (299) a 2020, ac oedd ar agor (221). Sylwer bod y sampl yn amrywio rhwng blynyddoedd gan na ddarparodd pob atyniad ddata yn 2019 a 2020.

Rhybudd: meintiau sampl bach

Cynnydd / gostyngiad mewn niferoedd ymwelwyr – 2020 o'i gymharu â 2019

6.32 Nid yw'n syndod gwnaeth bron pob atyniad adrodd gostyngiad mewn ymwelwyr ar gyfer 2020 o'i gymharu â 2019. Dywedodd 98% o atyniadau gwnaeth nifer eu hymwelwyr ostwng yn 2020. Gwnaeth yr atyniad a adroddodd gynnydd ond dechrau gweithredu ar ddiwedd 2019.

Tabl 6.10 Cynnydd / gostyngiad mewn niferoedd ymwelwyr – 2020 o'i gymharu â 2019

Newidiadau i nifer yr ymweliadau 2020 o'i gymharu â 2019	Dan do	Awyr agored	Y ddau - dan do ac awyr agored	Tanddaearol	Pob un
Cynyddu	1%				0%
Aros yr un fath		5%	1%		2%
Gostwng	99%	95%	99%	100%	98%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2020 (221)

Rhesymau dros y gostyngiad mewn ymwelwyr yn 2020

6.33 Gofynnwyd i atyniadau a oedd modd iddynt roi rhesymau penodol dros dderbyn llai o ymwelwyr yn 2020, y tu hwnt i'r rhesymau syml o fod ar gau neu bandemig COVID-19. Roedd y rhesymau'n cynnwys y canlynol:

- (1) Gorfod cyfyngu ymwelwyr er mwyn galluogi cadw pellter cymdeithasol.
- (2) Teithiau ysgolion neu grwpiau'n cael eu canslo.
- (3) Pobl yn gochel rhag ymweld â lleoedd (megis atyniadau).
- (4) Dim digwyddiadau neu weithgareddau arbennig yn cael eu cynnal gan yr atyniad.
- (5) Diffyg ymwelwyr o dramor.
- (6) Ddim wedi ailagor eto yn 2020 ar ôl dechrau'r pandemig.
- (7) Tywydd gwael ym mis Ionawr a Chwefror (cyn y pandemig), llifogydd o Storm Dennis.

Cynnydd / gostyngiad mewn niferoedd ymwelwyr – 2019 o'i gymharu â 2018

- 6.34 Yn 2019, adroddodd bron i 37% o atyniadau gynnydd mewn ymwelwyr o'i gymharu â 2018, dywedodd 28% fod nifer yr ymwelwyr wedi aros yr un fath, a dywedodd 29% fod nifer yr ymwelwyr yn gostwng.
- 6.35 Fel y dangosir yn nhabl 6.11 isod, roedd atyniadau awyr agored yn fwyaf tebygol o adrodd cynnydd mewn ffigurau ymwelwyr ar gyfer 2019. Adroddodd 51% o atyniadau awyr agored gynnydd mewn ymwelwyr, ond dim ond 25% o atyniadau dan do a adroddodd gynnydd.
- 6.36 Er i bob atyniad ddioddef yn 2020, rydym eisoes wedi gweld bod atyniadau awyr agored wedi dioddef llai. Mae'r data isod yn awgrymu i atyniadau awyr agored wneud yn well nag atyniadau dan do yn 2019 hefyd.

Tabl 6.11 Cynnydd / gostyngiad mewn niferoedd ymwelwyr – 2019 o'i gymharu â 2018

Newidiadau i nifer yr ymweliadau 2019 o'i gymharu â 2018	Dan do	Awyr agored	Y ddau - dan do ac awyr agored	Tanddaearol	Pob un
Cynyddu	25%	51%	44%	0%	37%
Aros yr un fath	33%	21%	28%	17%	28%
Gostwng	34%	21%	25%	83%	29%
Ddim yn gwybod	7%	7%	3%	0%	5%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 (299)

Rhesymau dros gynnydd / gostyngiad mewn ymwelwyr yn 2019

- 6.37 Roedd y rhesymau a roddwyd gan atyniadau sy'n adrodd cynnydd mewn niferoedd yr ymwelwyr yn 2019 fel a ganlyn:
- (1) Marchnata, hysbysebu neu hyrwyddo gwell i'r atyniad.
 - (2) Tywydd da.
 - (3) Ymwybyddiaeth well o'r atyniad.
 - (4) Mwy o weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol / presenoldeb cryfach ar-lein.
 - (5) Gwelliannau i'r atyniadau e.e. datblygiadau neu gyfleusterau newydd
- 6.38 Roedd y rhesymau a roddwyd gan atyniadau sy'n adrodd gostyngiad mewn niferoedd yr ymwelwyr yn 2019 fel a ganlyn:
- (1) Brexit / diffyg hyder yn yr economi ac felly llai o wario/tripiau.
 - (2) Diffyg ymwelwyr o dramor.
 - (3) Tywydd gwael ar yr un adeg â chyfnodau o brysurdeb fel arfer.

7. Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth

7.1 Mae'r adran hon yn edrych ar dueddiadau mewn nifer yr ymweliadau ag atyniadau, gan gymharu ffigurau ymwelwyr 2019 a 2020, ac mewn rhai achosion, ffigurau ymwelwyr 2018 a 2019. Sylwer bod yr adran hon ond yn berthnasol i atyniadau a ddarparodd data ar gyfer y ddwy flwyddyn, er mwyn gwneud cymariaethau tebyg a'i debyg.

Cymariaethau cyffredinol mewn ffigurau ymwelwyr

- 7.2 Ymhlith yr atyniadau sy'n ymateb i arolwg 2018 a 2019 (tabl 7.1), roedd niferoedd ymweliadau bron â bod yr un peth bob blwyddyn. Ond ar gyfer yr atyniadau sy'n ymateb i arolwg 2019 a 2020 (tabl 7.2), gostyngodd niferoedd ymweliadau gan 68%.
- 7.3 Ar gyfer cymariaethau 2019 a 2020, mae atyniadau a oedd ar gau yn 2020 wedi'u categorreiddio fel atyniadau â sero o ymwelwyr. Nod hyn yw helpu i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar atyniadau. Ymhlith y 259 o atyniadau a gynhwysir yng nghymhariaethau 2019 yn erbyn 2020, roedd 39 ar gau yn 2020.

Tabl 7.1 Cymariaethau cyffredinol rhwng 2018 a 2019

Sampl	Ymweliadau 2018	Ymweliadau 2019	% newid
162	16,953,943	16,898,566	-0.3%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2018 a 2019

Tabl 7.2 Cymariaethau cyffredinol rhwng 2019 a 2020

Sampl	Ymweliadau 2019	Ymweliadau 2020	% newid
258	19,047,363	6,139,493	-68%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020 (caiff atyniadau a oedd ar gau yn 2020 eu categorreiddio fel dim ymweliadau)

Cymariaethau fesul math o atyniad rhwng 2019 a 2020

7.4 Roedd y gostyngiad yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau am ddim ac atyniadau â thâl yn 2020 yn eithaf tebyg (gostyngiad o 65% a 71%, yn y drefn honno).

Tabl 7.3 Cymariaethau fesul math o atyniad rhwng 2019 a 2020

Math o fynediad	Sampl	Ymweliadau 2019	Ymweliadau 2020	% newid
Am ddim	104	10,295,673	3,599,176	-65%
Â thâl	150	8,697,462	2,516,258	-71%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020 (caiff atyniadau a oedd ar gau yn 2020 eu categorio fel sero o ymweliadau)

Noder: Cododd pedwar atyniad dâl mynediad yn 2019 ond dim yn 2020. Nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yma. O ganlyniad, mae'r cyfansymiau'n amrywio ychydig o'i gymharu â'r cyfansymiau uchod, gan fod y sampl ychydig yn wahanol (254 o atyniadau).

Sylwer: Ar gyfer yr atyniadau a oedd ar gau yn 2020, rydym wedi tybio pe byddent wedi bod ar agor, byddent naill ai wedi codi tâl neu beidio â chodi tâl am fynediad, yn seiliedig ar p'un a oeddent yn codi tâl neu beidio yn 2019.

Cymariaethau cyffredinol fesul rhanbarth rhwng 2019 a 2020

7.5 Gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn nifer yr ymwelwyr i atyniadau yng nghanolbarth Cymru (73%). Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 63% mewn ymwelwyr gydag atyniadau yn ne-orllewin Cymru.

Tabl 7.4 Cymariaethau cyffredinol fesul rhanbarth rhwng 2019 a 2020

Rhanbarth yng Nghymru	Sampl	Ymweliadau 2019	Ymweliadau 2020	% newid
Canolbarth	50	2,371,003	647,184	-73%
Gogledd	86	6,414,458	2,287,654	-64%
De-ddwyrain	64	6,357,143	1,770,127	-72%
De-orllewin	58	3,904,759	1,434,528	-63%
Cyfanswm	258	19,047,363	6,139,493	-68%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020 (caiff atyniadau a oedd ar gau yn 2020 eu categorio fel dim ymweliadau)

Sylwer: bydd y sampl yn y tablau yn adran 7 yn wahanol i'r sampl yn y tablau yn adran 6. Mae adran 7 yn cyfrif atyniadau a oedd ar gau yn 2020, fel y gellir gwneud cymhariaeth tebyg a'i debyg o ffigurau ymwelwyr.

Cymariaethau cyffredinol fesul categori rhwng 2019 a 2020

- 7.6 Fel gyda'r dadansoddiad cynharaf a ddangosir yn yr adroddiad hwn, mae tabl 7.5 isod yn dangos i'r parciau gwledig / gerddi a gwarchodfeydd bywyd gwyllt / natur weld gostyngiad yn niferoedd eu hymwelwyr (gostyngiad o 44% a 45% yn y drefn honno), ond nid i'r fath raddau â chategoriâu eraill.
- 7.7 Mae'r tabl isod hefyd yn cefnogi dadansoddiad cynharach sy'n awgrymu yr effeithiwyd yn arbennig o wael ar amgueddfeydd / orielau celf ac atyniadau rheilffordd / teithio. Gwelodd yr atyniadau o'r categorïau hyn a ddarparodd ddata ar gyfer y ddwy flynedd ostyngiad o 83% yn niferoedd eu hymwelwyr yn 2020 o'i gymharu â 2019.

Tabl 7.5 Cymariaethau cyffredinol fesul rhanbarth rhwng 2019 a 2020

Categori atyniad	Sampl	Ymweliadau 2019	Ymweliadau 2020	% newid
Atyniad antur / gweithgaredd	27	1,786,641	653,002	-63%
Parc gwledig / gardd	23	2,376,717	1,336,478	-44%
Fferm / bridiau prin	6	569,811	258,208	-55%
Atyniad bwyd neu ddiod	13	202,764	47,988	-76%
Eiddo hanesyddol	61	3,963,040	1,069,040	-73%
Atyniad diwydiannol / crefft	12	244,728	45,379	-81%
Amgueddfa / oriel gelf	71	5,523,280	952,026	-83%
Rheilffordd / teithio	16	774,739	130,991	-83%
Canolfan wyddoniaeth / technoleg	3	167,219	27,759	-83%
Parc thema / hamdden	1	678,714	185,312	-73%
Gwarchodfa bywyd gwyllt neu natur	20	2,517,941	1,394,557	-45%
Atyniad arall	5	241,769	38,753	-84%
Cyfanswm	258	19,047,363	6,139,493	-68%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020 (caiff atyniadau a oedd ar gau yn 2020 eu categoreiddio fel dim ymweliadau)

Sylwer: bydd y samplau i dablau'n adran 7 yn wahanol i'r sampl yn y tablau yn adran 6. Mae adran 7 yn cyfrif atyniadau a oedd ar gau yn 2020, fel y gellir gwneud cymhariaeth tebyg a'i debyg o ffigurau ymwelwyr.

Rhybudd: meintiau sampl bach

Cymariaethau cyffredinol yn ôl perchenogaeth

7.8 Gwelodd safleoedd Cadw y gostyngiad mwyaf yn nifer yr ymwelwyr – gostyngiad o 84% yn 2020 o'i gymharu â 2019. Dilynir hyn gan Amgueddfa Cymru a welodd ostyngiad o 82% mewn ymwelwyr ar draws ei safleoedd. Gwelodd y rhain y gostyngiad mwyaf yn ffigurau eu hymwelwyr ar gyfartaledd hefyd, fel y dangosir yn gynharach ar dudalen 36.

Tabl 7.6 Cymariaethau cyffredinol yn ôl perchenogaeth

Perchenogaeth	Sampl	Safleoedd ar gau yn 2020 wedi'u cynnwys yn y gymhariaeth*	Nifer yr ymweliadau 2019	Nifer yr ymweliadau 2020	% newid
Cadw	24	5	1,234,199	197,331	-84%
Awdurdod Lleol / Parc Cenedlaethol	43	7	3,944,922	1,687,645	-57%
Amgueddfa Cymru	7	0	1,951,792	349,264	-82%
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	21	3	1,973,980	487,917	-75%
Cyfoeth Naturiol Cymru**	3	0	354,111	256,000	-28%
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	153	24	8,557,844	2,612,692	-69%
RSPB	4	0	389,240	171,641	-56%
Dŵr Cymru	3	0	641,275	377,003	-41%
Cyfanswm	258	39	19,047,363	6,139,493	-68%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020 (caiff atyniadau a oedd ar gau yn 2020 eu categoreiddio fel sero o ymweliadau)

* Dengys y golofn hon nifer y safleoedd a oedd ar gau yn 2020 sydd wedi'u cynnwys ar gyfer y gymhariaeth hon.

Sylwer y bydd y samplau i dablau yn adran 7 yn wahanol i'r sampl yn nhablau yn adran 6. Mae adran 7 yn cyfrif atyniadau a oedd ar gau yn 2020, fel y gellir gwneud cymhariaeth tebyg a'i debyg o ffigurau ymwelwyr.

Sylwer y gallai rhai sefydliadau ddarparu data ar gyfer ychydig o'u safleoedd yn unig

**Sylwer i Cyfoeth Naturiol Cymru allu darparu data ar gyfer 3 o'i 29 o safleoedd yn unig yn 2019 a 2020.

Cymariaethau cyffredinol fesul math o leoliad

7.9 Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm yr ymweliadau fesul math o leoliad ar gyfer atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 a 2020. Nid yw'n syndod i atyniadau tanddaearol weld y gostyngiad mwyaf o un flwyddyn i'r llall yn nifer yr ymwelwyr (gostyngiad o 81%). Fel yr awgrymwyd yn gynharach yn yr adroddiad, dioddefodd atyniadau dan do yn fwy nag atyniadau awyr agored.

Tabl 7.7 Cymhariaeth gyffredinol fesul math o leoliad

Math o leoliad	Sampl	Ymweliadau 2019	Ymweliadau 2020	% newid
Dan do	95	5,965,763	1,224,327	-79%
Awyr agored	48	4,569,578	2,343,340	-49%
Y ddau - dan do ac awyr agored	109	8,007,207	2,473,883	-69%
Tanddaearol	6	504,815	97,943	-81%
Cyfanswm	258	19,047,363	6,139,493	-68%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020 (caiff atyniadau a oedd ar gau yn 2020 eu categoreiddio fel sero o ymweliadau)

Sylwer y bydd y sampl i dablau yn adran 7 yn wahanol i'r sampl i dablau yn adran 6. Mae adran 7 yn cyfrif atyniadau a oedd ar gau yn 2020, fel y gellir gwneud cymhariaeth tebyg a'i debyg o ffigurau ymwelwyr.

8. Taliadau mynediad

Taliadau mynediad cyffredinol ar gyfer atyniadau â thâl

8.1 Mae tabl 8.1 isod yn dangos cyfartaledd y taliadau mynediadau ar gyfer atyniadau â thâl a ddarparodd ddata mynediadau ar gyfer naill ai 2018, 2019 neu 2020.

8.2 Ar gyfartaledd, y tâl mynediad i oedolion oedd £9.27 yn 2019 a £9.32 yn 2020. Ar gyfartaledd, y tâl mynediad i blant oedd £5.72 yn 2019 a £6.16 yn 2020.

Tabl 8.1 Taliadau mynediad cyffredinol

Tâl mynediad ar gyfartaledd	2018	2019	2020
Oedolyn	£9.42	£9.27	£9.32
Plentyn	£6.74	£5.72	£6.16

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2018 (132, o'r arolwg blaenorol), 2019 (158) a 2020 (116)

Mae data mynediadau o un atyniad a ddarparodd ddata ar gyfer 2019, ond nid ar gyfer 2020, wedi cael ei ddileu gan fod y tâl mynediad yn sylweddol uwch nag unrhyw rai eraill, ac felly byddent yn ystumio'r ffigurau yn yr adran hon.

Cymhariaeth o daliadau mynediad

8.3 Mae tabl 8.2 a thabl 8.3 isod yn dadansoddi taliadau mynediad ar gyfer atyniadau â thâl a ddarparodd ddata ar gyfer 2018 a 2019, neu 2019 a 2020, fel y gellir gwneud cymariaethau tebyg a'i debyg. Nid yw taliadau mynediad i blant ar gael ar gyfer 2018. Fodd bynnag, cynyddodd y taliadau mynediad i oedolion ar gyfartaledd ar gyfer y rhai a ddarparodd ddata ar gyfer y ddwy flynedd gan 6% yn 2019.

Tabl 8.2 Cymhariaeth o daliadau mynediad 2018 a 2019 ar gyfer atyniadau â thâl

Tâl mynediad ar gyfartaledd	2018	2019	% newid
Oedolyn	£8.86	£9.36	6%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2018 a 2019 (73)

8.4 Gostyngodd taliadau mynediad ychydig yn 2020 wrth gymharu data o'r rhai a ddarparodd daliadau mynediad ar gyfer 2019 a 2020. Gostyngodd taliadau mynediad cyfartalog oedolion gan 1% i £9.29 yn 2020, a gostyngodd taliadau mynediad cyfartalog plant gan 3% i £6.20 yn 2020.

Tabl 8.3 Cymhariaeth o daliadau mynediad 2019 a 2020 ar gyfer atyniadau â thâl

Tâl mynediad ar gyfartaledd	2019	2020	% newid
Oedolyn	£9.42	£9.29	-1%
Plentyn	£6.40	£6.20	-3%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020 (114)

Dosbarthiad o daliadau mynediad i oedolion yn ôl amrywiaeth ar gyfer 2019 a 2020

- 8.5 Mae tabl 8.4 isod yn dangos dosbarthiad taliadau mynediad i oedolion ar gyfer atyniadau a ddarparodd ddata mynediad ar gyfer naill ai 2019 neu 2020, yn ôl band codi tâl. Gwnaeth llai na thraean o atyniadau (29%) codi dâl o £10 neu drosodd yn 2019 a 2020.
- 8.6 Roedd taliadau mynediad yn ôl band yn eithaf tebyg ar gyfer 2019 a 2020. Er nad oedd hyn yn syndod wrth ystyried bod tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion yn debyg rhwng y ddwy flynedd.
- 8.7 Yr eithriad yw cyfran yr atyniadau sy'n codi tâl rhwng £4.00 a £7.99. Gostyngodd y gyfran sy'n codi tâl rhwng £4.00 a £4.99 (o 14% i ddim ond 5%), fel y gwnaeth y gyfran a gododd dâl rhwng £7.00 a £7.99 (o 11% i 6%). Cynyddodd y gyfran a gododd dâl rhwng £5.00 a £5.99 (o 15% i 21%), fel y gwnaeth gyfran a gododd dâl rhwng £6.00 a £6.99 (o 7% i 16%).

Tabl 8.4 Dosbarthiad o daliadau mynediad i oedolion yn ôl amrywiaeth ar gyfer pob atyniad

Tâl mynediad ar gyfartaledd	2019	2020
Llai na £1.00	3%	2%
£1.00 - £1.99	0%	1%
£2.00 - £2.99	6%	6%
£3.00 - £3.99	4%	6%
£4.00 - £4.99	14%	5%
£5.00 - £5.99	15%	21%
£6.00 - £6.99	7%	16%
£7.00 - £7.99	11%	6%
£8.00 - £8.99	7%	6%
£9.00 - £9.99	4%	3%
£10 a throsodd	29%	29%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 (158) a 2020 (116)

Dosbarthiad o daliadau mynediad i oedolion yn ôl amrywiaeth

8.8 Mae tabl 8.5 yn dangos dosbarthiad taliadau mynediad ar gyfer atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer 2019 a 2020. Unwaith eto, mae'r taliadau mynediad fesul band ar gyfer yr un set o atyniadau'n debyg iawn rhwng y ddwy flynedd, heblaw am yr holl fandiau mynediad rhwng £4.00 a £7.99.

Tabl 8.5 Dosbarthiad o daliadau mynediad i oedolion yn ôl amrywiaeth yn 2019 a 2020

Tâl mynediad ar gyfartaledd	2019	2020
Llai na £1.00	3%	2%
£1.00 - £1.99	0%	1%
£2.00 - £2.99	6%	6%
£3.00 - £3.99	3%	6%
£4.00 - £4.99	10%	5%
£5.00 - £5.99	16%	21%
£6.00 - £6.99	8%	16%
£7.00 - £7.99	14%	6%
£8.00 - £8.99	6%	6%
£9.00 - £9.99	4%	3%
£10 a throsodd	31%	28%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020 (114)

Tâl mynediad ar gyfartaledd fesul rhanbarth

- 8.9 Roedd y taliadau mynediad ar gyfartaledd ar gyfer atyniadau sy'n darparu data yn naill ai 2019 neu 2020 ar eu huchaf yng ngogledd Cymru, i oedolion ac i blant. Yn 2019, y taliad mynediad ar gyfartaledd i oedolion ar gyfer gogledd Cymru oedd £11.12, ac £11.50 yn 2020. Yn 2019, y taliad mynediad ar gyfartaledd i blant ar gyfer atyniadau yng ngogledd Cymru oedd £7.06, ac £8.82 yn 2020.
- 8.10 Roedd y taliadau mynediad ar gyfartaledd ar gyfer atyniadau yn nghanolbarth Cymru a De-orllewin Cymru, ar gyfer 2019 a 2020, tua £8 i oedolion a £5 i blant.

Tabl 8.6 Tâl mynediad ar gyfartaledd fesul rhanbarth

Tâl mynediad ar gyfartaledd	Sampl 2019	Tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion 2019	Tâl mynediad ar gyfartaledd i blant 2019	Sampl 2020	Tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion 2020	Tâl mynediad ar gyfartaledd i blant 2020
Canolbarth	26	£7.53	£4.43	18	£7.87	£4.40
Gogledd	56	£11.12	£7.06	41	£11.50	£8.82
De-ddwyrain	34	£9.26	£5.54	27	£7.88	£4.89
De-orllewin	42	£7.89	£4.88	30	£8.51	£4.74
Cyfanswm / cyfartaledd cyffredinol	158	£9.27	£5.72	116	£9.32	£6.16

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 (158) a 2020 (116)

Cymhariaeth o dâl mynediad ar gyfartaledd fesul rhanbarth

- 8.11 Mae'r canlyniadau o ddata a ddarparwyd gan atyniadau ar gyfer y ddwy flynedd yn dangos na wnaeth taliadau mynediad newid llawer ymhlith yr atyniadau hyn. Fodd bynnag, nid yw hyn yn syndod o ystyried i daliadau mynediadau i oedolion ymhlith yr atyniadau hyn ostwng gan 1% yn unig, a gostyngodd taliadau mynediad i blant gan 3% yn unig.

Tabl 8.7 Cymhariaeth o dâl mynediad ar gyfartaledd fesul rhanbarth

Tâl mynediad ar gyfartaledd	Sampl	Tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion 2019	Tâl mynediad ar gyfartaledd i blant 2019	Tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion 2020	Tâl mynediad ar gyfartaledd i blant 2020
Canolbarth	18	£8.04	£4.79	£7.87	£4.40
Gogledd	41	£11.91	£8.67	£11.50	£8.82
De-ddwyrain	26	£8.17	£5.13	£7.88	£4.89
De-orllewin	29	£7.87	£5.34	£8.37	£4.90
Cyfanswm / cyfartaledd cyffredinol	114	£9.42	£6.40	£9.29	£6.20

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020 (114)

Tâl mynediad ar gyfartaledd yn ôl categori atyniad

- 8.12 Roedd taliadau mynediad ar gyfartaledd yn ddrutach ar gyfer atyniadau antur/gweithgaredd. Yn 2019, y taliad mynediad ar gyfartaledd i oedolion oedd £15.81, ond yn 2020, roedd yn £16.10. Roedd y tâl mynediad i blant hefyd ar ei uchaf, sef £14.32 yn 2019 a £15.35 yn 2020.
- 8.13 Nid oedd y ffi mynediad ar gyfartaledd ar gyfer atyniadau rheilffordd/teithio yn wahanol iawn i'r rhai o atyniadau antur/gweithgaredd. Y tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion ar gyfer atyniadau rheilffordd/teithio oedd £14.28 yn 2019 a £15.58 yn 2020. Fodd bynnag, mae ffi mynediad ar gyfartaledd i blant ar gyfer yr atyniadau hyn yn llawer is, ar gyfartaledd o £5.84 yn 2019 a £6.82 yn 2020.
- 8.14 Roedd y taliadau mynediad isaf ar gyfer 'atyniadau eraill', fodd bynnag, mae'r rhain yn cynrychioli atyniadau nad ydynt yn dod o dan y categorïau eraill. Heblaw am 'atyniadau eraill', y tâl mynediad isaf ar gyfartaledd i oedolion ar gyfer 2019 oedd ar gyfer amgueddfeydd / orielau celf ar £5.33. Y tâl mynediad isaf ar gyfartaledd i blant yn 2019 oedd ar gyfer parciau gwledig / gerddi ar £2.15.
- 8.15 Heblaw am 'atyniadau eraill', y taliadau mynediadau isaf yn 2020 oedd ar gyfer amgueddfeydd / orielau celf ar £6.08, ond tâl isaf i blant oedd ar gyfer parciau gwledig / gerddi eto ar £1.99.

Tabl 8.8 Tâl mynediad ar gyfartaledd yn ôl categori atyniad

Tâl mynediad ar gyfartaledd	Sampl 2019	Tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion 2019	Tâl mynediad ar gyfartaledd i blant 2019	Sampl 2020	Tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion 2020	Tâl mynediad ar gyfartaledd i blant 2020
Atyniad antur / gweithgaredd	23	£15.81	£14.32	19	£16.10	£15.35
Parc gwledig / gardd	14	£6.87	£2.15	11	£6.72	£1.99
Fferm / bridiau prin	6	£8.23	£6.81	5	£9.48	£8.27
Atyniad bwyd neu ddiod	11	£12.59	£6.37	7	£7.21	£1.79
Eiddo hanesyddol	43	£7.10	£4.01	33	£6.98	£4.11
Atyniad diwydiannol / crefft	3	£8.50	£6.33	3	£8.17	£6.33
Amgueddfa / oriel gelf	25	£5.33	£2.40	13	£6.08	£3.15
Rheilffordd / teithio	17	£14.28	£5.84	11	£15.58	£6.82
Canolfan wyddoniaeth / technoleg	2	£7.50	£5.25	2	£7.50	£5.25
Parc thema / hamdden	1	£8.00	£6.00	1	£8.00	£6.00
Gwarchodfa bywyd gwyllt neu natur	10	£7.35	£4.83	8	£7.65	£5.54
Atyniad arall	3	£4.38	£5.18	3	£4.72	£5.25
Cyfanswm / cyfartaledd cyffredinol	158	£9.27	£5.72	116	£9.32	£6.16

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 (158) a 2020 (116)

Rhybudd: meintiau sampl bach

Cymhariaeth o dâl mynediad ar gyfartaledd yn ôl categori atyniad

- 8.16 Roedd taliadau mynediad ar gyfartaledd yn eithaf tebyg rhwng 2019 a 2020 ar gyfer atyniadau a ddarparodd ddata ar gyfer y ddwy flynedd. Fodd bynnag, mae hyn i'w ddisgwyl oherwydd gwnaeth y taliadau mynediad ar gyfartaledd ostwng ychydig yn unig ymhlith yr atyniadau hyn yn 2020.
- 8.17 Heblaw am 'atyniadau eraill', dim ond tri chategori atyniad a welodd gynnydd mewn taliadau mynediad i oedolion a phlant. Y rhein yw atyniadau antur/gweithgaredd, atyniadau rheilffordd/teithio, a chynyddodd taliadau mynediad ychydig ar gyfer gwarchodfeydd bywyd gwyllt/natur.

Tabl 8.9 Cymhariaeth o dâl mynediad ar gyfartaledd yn ôl categori atyniad

Tâl mynediad ar gyfartaledd	Sampl	Tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion 2019	Tâl mynediad ar gyfartaledd i blant 2019	Tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion 2020	Tâl mynediad ar gyfartaledd i blant 2020
Atyniad antur / gweithgaredd	19	£15.66	£14.96	£16.10	£15.35
Parc gwledig / gardd	11	£7.28	£2.28	£6.72	£1.99
Fferm / bridiau prin	5	£9.48	£7.87	£9.48	£8.27
Atyniad bwyd neu ddiod	6	£7.67	£3.42	£6.33	£2.08
Eiddo hanesyddol	32	£7.66	£4.68	£6.89	£3.99
Atyniad diwydiannol / crefft	3	£8.50	£6.33	£8.17	£6.33
Amgueddfa / oriel gelf	13	£6.12	£3.34	£6.08	£3.15
Rheilffordd / teithio	11	£14.16	£6.68	£15.58	£6.82
Canolfan wyddoniaeth / technoleg	2	£7.50	£5.25	£7.50	£5.25
Parc thema / hamdden	1	£8.00	£6.00	£8.00	£6.00
Gwarchodfa bywyd gwyllt neu natur	8	£7.59	£5.35	£7.65	£5.54
Atyniad arall	3	£4.38	£5.18	£4.72	£5.25
Cyfanswm / cyfartaledd cyffredinol	114	£9.42	£6.40	£9.29	£6.20

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020 (114)

Rhybudd: meintiau sampl bach

Tâl mynediad ar gyfartaledd fesul perchenogaeth

- 8.18 Roedd taliadau mynediad ar gyfartaledd ar eu huchaf ar gyfer perchenogion preifat/ymddiriedaethau yn 2019 a 2020. Y tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion ar gyfer y rhain oedd £10.19 yn 2019, a £10.80 yn 2020. Y tâl mynediad ar gyfartaledd i blant ar gyfer y rhain oedd £6.66 yn 2019, a £7.45 yn 2020
- 8.19 Yn 2020, gostyngodd taliadau mynediad ar gyfer atyniadau a weithredir gan Cadw. Er enghraifft, yn 2020, y tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolyn oedd £6.10, ond gostyngodd taliadau mynediad i oedolion i £5.63 yn 2020. Roedd Cadw yn gallu darparu ei daliadau mynediad ar gyfer yr holl atyniadau â thâl yn y ddwy flynedd, ond yn 2020, ni agorodd pump o'i safleoedd ac felly ni chawsant eu cyfrif yn y taliadau mynediad ar gyfartaledd 2020.

Tabl 8.10 Tâl mynediad ar gyfartaledd fesul perchenogaeth

Tâl mynediad ar gyfartaledd	Sampl 2019	Tâl ar gyfartaledd i oedolion 2019	Tâl ar gyfartaledd i blant 2019	Sampl 2020	Tâl ar gyfartaledd i oedolion 2020	Tâl ar gyfartaledd i blant 2020
Cadw	24	£6.10	£3.67	19	£5.63	£3.33
Awdurdod Lleol / Parc Cenedlaethol	17	£7.74	£3.11	10	£6.36	£4.30
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	108	£10.19	£6.66	78	£10.80	£7.45
RSPB	2	£6.00	£3.00	2	£5.25	£2.75

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a/neu 2020. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi'i heithrio gan na ddarparwyd digon o ddata ar daliadau mynediad i ddod i gasgliadau ystyrlon.

Rhybudd: meintiau sampl bach

Cymhariaeth o dâl mynediad ar gyfartaledd fesul perchenogaeth

- 8.20 Ymhlith yr atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020, cynyddodd taliadau mynediad ar gyfartaledd ar gyfer atyniadau a weithredir gan awdurdodau lleol / parciau cenedlaethol ychydig yn 2020, fel y gwnaeth taliadau mynediad ar gyfer atyniadau a weithredir gan berchnogion preifat / ymddiriedaethau.

Tabl 8.11 Cymhariaeth o dâl mynediad ar gyfartaledd fesul perchenogaeth

Tâl mynediad ar gyfartaledd	Sampl	Tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion 2019	Tâl mynediad ar gyfartaledd i blant 2019	Tâl mynediad ar gyfartaledd i oedolion 2020	Tâl mynediad ar gyfartaledd i blant 2020
Cadw	19	£6.61	£3.97	£5.63	£3.33
Awdurdod Lleol / Parc Cenedlaethol	10	£6.25	£4.10	£6.36	£4.30
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	76	£10.52	£7.50	£10.79	£7.54
RSPB	2	£6.00	£3.00	£5.25	£2.75

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi'i heithrio gan na ddarparwyd digon o ddata ar daliadau mynediad i ddod i gasgliadau ystyrlon.

Rhybudd: meintiau sampl bach

9. Gweithrediadau

Symudiad refeniw gros

- 9.1 Adroddodd bron i hanner (47%) o atyniadau dwf mewn refeniw yn 2018 o'i gymharu â 2017 (canlyniadau o'r arolwg blaenorol).
- 9.2 Arafodd twf yn 2019 gyda 52% o atyniadau'n adrodd refeniw tebyg i'r flwyddyn flaenorol. Wrth edrych ar ganlyniadau fesul math o leoliad, adroddodd 50% o atyniadau awyr agored gynnydd mewn refeniw yn 2019, ond dim ond 25% o atyniadau dan do adroddodd gynnydd mewn refeniw. Hefyd, gwelodd 47% o atyniadau sy'n categoreiddio eu hunain fel atyniadau dan do ac awyr agored gynnydd mewn refeniw.
- 9.3 Nid yw'n syndod i'r rhan fwyaf (90%) o atyniadau adrodd gostyngiad mewn refeniw gros yn 2020. Nid yw'r canlyniadau'n amrywio fesul math o leoliad.

Tabl 9.1 Symudiad refeniw gros

Newid refeniw gros	2018 o'i gymharu â 2017	2019 o'i gymharu â 2018	2020 o'i gymharu â 2019
Wedi cynyddu	47%	38%	2%
Tebyg	37%	52%	8%
Wedi gostwng	16%	10%	90%
Sampl	189	292	215

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 / 2019 / 2020, ac oedd ar agor y flwyddyn flaenorol

- 9.4 Gofynnwyd i'r rhai y mae eu refeniw wedi gostwng beth oedd canran y gostyngiad, os yw'n hysbys. O'r 194 o atyniadau a adroddodd ostyngiad mewn refeniw ar gyfer 2020, roedd 112 yn gallu darparu canran y gostyngiad. Y gostyngiad ar gyfartaledd ymhlith yr atyniadau hyn oedd 64%.

Cyflogaeth gyffredinol yn 2019 a 2020

- 9.5 Gofynnwyd i atyniadau ddarparu dadansoddiad o weithwyr a gwirfoddolwyr mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â thwristiaeth yn 2019 a 2020. Ar gyfer 2010, gofynnwyd i atyniadau ddarparu ffigurau ar gyfer haf 2020, oherwydd efallai bod nifer y staff wedi newid yn ystod y flwyddyn, a'r haf yw'r adeg lle roeddent yn fwyaf tebygol o fod ar agor.
- 9.6 Yn 2019, roedd gwirfoddolwyr tymhorol di-dâl yn cyfrif am y gyfran fwyaf o weithwyr (43%). Mae hyn yn unol â'r canlyniadau o'r blynyddoedd blaenorol.
- 9.7 Fodd bynnag, yn 2020, gostyngodd nifer y gweithwyr tymhorol di-dâl yn sylweddol i 21% o staff mewn atyniadau yng Nghymru. O ganlyniad, cynyddodd cyfran y gweithwyr i bob un o'r categorïau eraill yn 2020, heblaw am staff tymhorol llawn amser, a arhosodd yr un fath (3%) yn sgil gostyngiad mewn niferoedd.

Tabl 9.2 Cyflogaeth gyffredinol yn 2019 a 2020

Math o weithiwr		Nifer y gweithiwr	2019 %	Nifer y gweithiwr	2020 %
Parhaol	Llawn amser	1,718	17%	1,356	25%
	Rhan amser	1,425	14%	1,193	22%
	Gwirfoddolwyr di-dâl	1,208	12%	822	15%
Tymhorol	Llawn amser	326	3%	156	3%
	Rhan amser	1,114	11%	790	15%
	Gwirfoddolwyr di-dâl	4,331	43%	1,123	21%
Cyfanswm		10,170	10,122	100%	5,440

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 (274) a 2020 (235), gan gynnwys atyniadau a oedd ar gau yn 2020.

- 9.8 Hefyd, gofynnwyd i atyniadau faint o staff a roddwyd ar ffyrlo yn 2020. Dywedodd cyfanswm o 59% o atyniadau a oedd yn gallu darparu ffigurau cyflogaeth iddynt ddefnyddio'r cynllun ffyrlo. Rhoddodd yr atyniadau hyn gyfanswm o 2,228 aelodau o staff ar ffyrlo. Mae hyn yn cyfateb i gyfartaledd o 16.1 aelodau o staff ar ffyrlo fesul atyniad a ddefnyddiodd y cynllun. Y cyfartaledd ymhlith yr holl atyniadau, gan gynnwys y rhai na defnyddiodd y cynllun ffyrlo, oedd 9.5 aelod o staff.
- 9.9 Mae'r canfyddiadau uchod yn debyg i'r rhai hynny o arolwg effaith Coronafeirws Baromedr Twristiaeth Pan ofynnwyd iddynt ym mis Medi 2020, dywedodd saith ym mhob deg atyniad fod ganddynt staff ar ffyrlo¹³. Ymhlith yr holl ddiwydiannau yn y DU, ym mis Awst 2020, roedd

¹³ [Baromedr Twristiaeth \(Arolwg effaith coronafeirws \(COVID-19\)\): cam 5 2020](#)

tua 13% o'r gweithlu ar ffyrlo neu ffyrlo rhannol, o'i gymharu â 51% o ddiwydiant y celfyddydau, adloniant ac hamdden¹⁴.

Newid cyffredinol mewn cyflogaeth rhwng 2019 a 2020

- 9.10 Mae niferoedd staff wedi'u coladu ar gyfer atyniadau a ddarparodd y wybodaeth hon ar gyfer 2019 a 2020, fel y gellir gwneud cymhariaeth tebyg a'i debyg. Dangosir y canlyniadau yn nhabl 9.3 isod.
- 9.11 Ar y cyfan, roedd gostyngiad o 30% mewn staff ymhlith yr atyniadau a ddarparodd ffigurau cyflogaeth ar gyfer y ddwy flynedd.
- 9.12 Mae'r data'n awgrymu y cafodd staff tymhorol eu heffeithio'n fwy na staff parhaol. Gostyngiad o 6% yn unig oedd mewn staff parhaol llawn amser ymhlith yr atyniadau sy'n darparu ffigurau cyflogaeth ar gyfer 2019 a 2020. Yn yr un modd, roedd gostyngiad o 1% yn unig mewn staff parhaol rhan amser. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 48% mewn staff tymhorol llawn amser a gostyngiad o 22% mewn staff tymhorol rhan amser.
- 9.13 Mae'n ymddangos bod gwirfoddolwyr di-dâl wedi'u heffeithio fwyaf, yn enwedig gwirfoddolwyr tymhorol di-dâl. Nifer y gwirfoddolwyr tymhorol di-dâl yn 2019 ymhlith yr atyniadau sy'n cymryd rhan oedd 2,633, ond gostyngodd hyn i 1,123 o wirfoddolwyr yn 2020, gostyngiad o 57%.

Tabl 9.3 Newid cyffredinol mewn cyflogaeth rhwng 2019 a 2020

Math o weithiwr		Nifer y gweithiwr 2019	Nifer y gweithiwr 2020	% newid
Parhaol	Llawn amser	1,409	1,331	-6%
	Rhan amser	1,208	1,191	-1%
	Gwirfoddolwyr di-dâl	1,111	822	-26%
Tymhorol	Llawn amser	301	156	-48%
	Rhan amser	954	746	-22%
	Gwirfoddolwyr di-dâl	2,633	1,123	-57%
Cyfanswm		7,616	5,369	-30%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020 (232), gan gynnwys atyniadau a oedd ar gau yn 2020

¹⁴ [Swyddfa Ystadegau Gwladol: Coronavirus and the economic impacts on the UK: 27 August 2020](#)

Newid mewn cyflogaeth fesul categori atyniad

- 9.14 Er yr ymdrinnir â meintiau sampl bach, mae'r newid mewn nifer y staff fesul categori atyniad o un flwyddyn i'r llall yn awgrymu y cafodd atyniadau rheilffordd / teithio ac atyniadau diwydiannol / crefft eu taro'n arbennig o galed. Gwelodd y ddau gategori atyniad hyn ostyngiad o 50% mewn staff yn 2020 o'i gymharu â 2019. Gwelodd y ddau fath o atyniadau hyn rai o'r gostyngaidau mwyaf o un flwyddyn i'r llall yn nifer yr ymwelwyr hefyd.
- 9.15 Roedd amgueddfeydd / orielau celf yn gategori atyniad arall a welodd ostyngiadau mawr yn ffigurau eu hymwelwyr o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, efallai nad yw'r gostyngiad hwn mewn ymwelwyr o reidwydd wedi trosglwyddo i gymaint o swyddi'n cael eu colli. Gwelodd amgueddfeydd / orielau celf ostyngiad o 27% yn nifer y staff yn 2020.
- 9.16 Gwelodd barciau gwledig / gerddi a gwarchodfeydd bywyd gwyllt / natur ostyngiad o 18% ac 20% yn nifer y staff yn 2020 o'i gymharu â 2019. Mae'r rhain ymlith y gostyngiadau lleiaf yn nifer y staff o'i gymharu â'r categorïau eraill. Fel y nodwyd yn gynharach, ni wnaeth nifer yr ymwelwyr â'r ddau gategori hyn ostwng mor sylweddol â nifer yr ymwelwyr â chategoriâu atyniadau eraill.

Tabl 9.4 Newid mewn cyflogaeth fesul categori atyniad

Categori atyniad	Sampl	2019 staff	2020 staff	% newid
Atyniad antur / gweithgaredd	26	863	665	-23%
Parc gwledig / gardd	20	483	397	-18%
Fferm / bridiau prin	6	274	188	-31%
Atyniad bwyd neu ddiod	13	116	78	-33%
Eiddo hanesyddol	49	1,040	758	-27%
Atyniad diwydiannol / crefft	10	254	126	-50%
Amgueddfa / oriel gelf	69	2,924	2,136	-27%
Rheilffordd / teithio	15	955	474	-50%
Canolfan wyddoniaeth / technoleg	2	32	27	-16%
Parc thema / hamdden	1	88	63	-28%
Gwarchodfa bywyd gwyllt neu natur	16	513	411	-20%
Atyniad arall	5	74	46	-38%
Cyfanswm	232	7,616	5,369	-30%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 a 2020 (232), gan gynnwys atyniadau a oedd ar gau yn 2020

Mae ffigurau staff yn cynnwys yr holl staff parhaol a'r holl staff tymhorol, gan gynnwys gwirfoddolwyr di-dâl

Rhybudd: meintiau sampl bach

Lefelau gwariant marchnata

- 9.17 Yn 2018, dywedodd 74% o atyniadau bod eu gwariant marchnata'n debyg i'w gwariant marchnata yn 2017 (canlyniadau o'r arolwg yn 2018). Mae hyn yn debyg i 2019, lle dywedodd tua tri chwarter (77%) o atyniadau bod eu gwariant marchnata ar gyfer 2019 yn debyg i'w gwariant marchnata ar gyfer 2018.
- 9.18 Nid yw'n syndod i'r canlyniadau hyn newid yn 2020. Dywedodd tua thri chwarter (76%) o atyniadau bod eu gwariant marchnata wedi gostwng yn 2020 o'i gymharu â'r lefelau a wariwyd yn 2019.
- 9.19 Syndod oedd i 20% ddweud bod eu gwariant marchnata yn 2020 yn debyg i'r swm a wariwyd yn 2019, a nododd 4% fod hwn wedi cynyddu. Gallai hyn fod yn sgil atyniadau yn ceisio gwneud yn iawn am golledion yn niferoedd ymwelwyr, neu fod y gwariant marchnata ar gyfer y flwyddyn eisoes wedi'i gytuno cyn dechrau'r pandemig.

Tabl 9.5 Lefelau gwariant marchnata

Categori atyniad	2018 o'i gymharu â 2017	2019 o'i gymharu â 2018	2020 o'i gymharu â 2019
Wedi cynyddu	16%	15%	4%
Tebyg	74%	77%	20%
Wedi gostwng	10%	8%	76%
Sampl	213	290	254

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2018 / 2019 / 2020

10. Proffil ymwelwyr ar gyfer 2019 a 2020

Cyfran ymweliadau oedolion a phlant fesul categori atyniad

- 10.1 Mae cyfran yr ymwelwyr ag atyniadau a oedd yn oedolion yn debyg i 2019 a 2020 – 71% a 73% yn y drefn honno. Mae hwn yn unol â'r canlyniadau o 2018, lle roedd 70% o ymwelwyr ag atyniadau'n oedolion.
- 10.2 Ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o atyniadau yn 2019, roedd y mwyafrif o ymwelwyr yn oedolion. Yr eithriad i hyn yw atyniadau gwyddoniaeth / technoleg, lle oedd 54% o ymwelwyr yn blant, ac atyniadau 'eraill' lle oedd 50% o ymwelwyr yn blant. Mae rhai o'r atyniadau 'eraill' hyn yn ganolfannau gweithgareddau dan do.
- 10.3 Yn 2020, adroddodd atyniadau gwyddoniaeth / technoleg mai dim ond 32% o ymwelwyr oedd yn blant. Gall hyn fod o ganlyniad i lai o deithiau ysgol / ymweliadau grŵp â'r mathau hyn o leoliadau yn sgil pandemig COVID-19.
- 10.4 Mae cyfran yr ymwelwyr yn 2019 a 2020 a oedd yn oedolion a phlant yn eithaf tebyg ar gyfer y categorïau o atyniadau sy'n weddill rhwng y ddwy flynedd.

Tabl 10.1 Cyfran ymweliadau oedolion a phlant fesul categori atyniad

Categori atyniad	Sampl 2019	% yr ymwelwyr sy'n oedolion ar gyfartaledd 2019	% yr ymwelwyr sy'n blant ar gyfartaledd 2019	Sampl 2020	% yr ymwelwyr sy'n oedolyn ar gyfartaledd 2020	% yr ymwelwyr sy'n blant ar gyfartaledd 2020
Atyniad antur / gweithgaredd	30	57%	43%	25	55%	45%
Parc gwledig / gardd	28	71%	29%	22	72%	28%
Fferm / bridiau prin	7	61%	39%	6	59%	41%
Atyniad bwyd neu ddiod	15	82%	18%	11	89%	11%
Eiddo hanesyddol	67	77%	23%	31	78%	22%
Atyniad diwydiannol / crefft	12	76%	24%	8	84%	16%
Amgueddfa / oriel gelf	77	75%	25%	51	77%	23%
Rheilffordd / teithio	20	72%	28%	12	77%	23%
Canolfan wyddoniaeth / technoleg	3	46%	54%	2	68%	32%
Parc thema / hamdden	3	57%	43%	1	55%	45%
Gwarchodfa bywyd gwyllt neu natur	20	63%	37%	13	69%	31%
Atyniad arall	5	50%	50%	5	50%	50%
Cyfanswm	287	71%	29%	187	73%	27%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 / 2020

Sylwer bod y rhan fwyaf o'r ffigurau uchod yn seiliedig ar amcangyfrifon.

Rhybudd: meintiau sampl bach

Tarddiad ymwelwyr 2019 a 2020

- 10.5 Mae cyfran yr ymwelwyr a oedd o dramor yn 2019 (10%) yn debyg i'r canlyniadau o arolwg 2018 (11%). Nid yw'n syndod bod cyfran yr ymwelwyr ag atyniadau yn 2020 a oedd o dramor wedi gostwng i 3%.
- 10.6 Y newid sylweddol arall yw'r cynnydd yng nghyfran yr ymwelwyr yn 2020 a oedd o Gymru. Yn 2019, roedd 47% o ymwelwyr ag atyniadau o Gymru, ond y ffigur a adroddwyd gan atyniadau ar gyfer 2020 oedd 59%. Mae'n debygol bod hwn yn adlewyrchu meddylfryd y cyhoedd i 'aros yn lleol', gan barhau gyda'r neges gan Lywodraeth Cymru yn gynharach yn y pandemig.

Tabl 10.2 Tarddiad ymwelwyr 2019 a 2020

Categori atyniad	2019	2020
% yr ymwelwyr o dramor ar gyfartaledd	10.4%	3.1%
% yr ymwelwyr o Gymru ar gyfartaledd	47.3%	59.4%
% yr ymwelwyr o weddill y DU ar gyfartaledd	42.3%	37.5%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 (242) a 2020 (174)

Cyfran yr ymwelwyr mewn grwpiau / teithiau wedi eu trefnu ar gyfer 2019 a 2020

- 10.7 Cyfran yr ymwelwyr a gafodd eu hamcangyfrif i fod mewn grwpiau / teithiau wedi eu trefnu yn 2019 oedd 14%. Mae hyn yn debyg i'r amcangyfrif a ddarparwyd ar gyfer 2018 (13%).
- 10.8 Mae'n syndod bod cyfran yr ymwelwyr o grwpiau neu deithiau wedi gostwng i 8% yn unig yn 2020 (gellir bod wedi disgwyl gostyngiad mwy).

Tabl 10.3 Cyfran yr ymwelwyr mewn grwpiau / teithiau wedi eu trefnu ar gyfer 2019 a 2020

Categori atyniad	% ar gyfartaledd sy'n ymweld mewn grwpiau / teithiau
2019	14%
2020	8%

Sampl: atyniadau sy'n darparu data ar gyfer 2019 (287) a 2020 (186)

11. Cyfweiliadau manwl: Prif ganfyddiadau

Fel y trafodir yn gynharach yn yr adroddiad hwn, un nod o'r cyfweiliadau manwl oedd deall sut mae atyniadau'n amcangyfrif ffigurau eu hymwelwyr, fel y crynhoir yn adrannau 3.13 i 3.15. Trafodwyd nifer o bynciau eraill yn y cyfweiliadau. Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

Mae llawer wedi cael anawsterau wrth gadw gwirfoddolwyr

- 11.1 Dywedodd llawer o'r atyniadau a gymerodd ran yn y cyfweiliadau eu bod wedi cael anawsterau wrth gadw gwirfoddolwyr. Nid yw un atyniad llai wedi ailagor gan fod ei wirfoddolwyr yn dueddol o fod yn hŷn, ac felly yn fwy agored i niwed. Penderfynodd atyniad arall beidio â gofyn am unrhyw wirfoddolwyr gan eu bod yn ceisio lleihau nifer y staff yn yr atyniad.

“Nid ydym wedi defnyddio gwirfoddolwyr ers y pandemig. Rydym yn ceisio lleihau nifer y staff yn yr amgueddfa, er mwyn cael y niferoedd sydd eu hangen arnom yn unig. Ond maent hefyd yn dueddol o fod yn bobl hŷn, ac ni fyddai'n gwneud synnwyr inni gymryd y risg honno, yn enwedig pan nad yw'n hanfodol eu bod gyda ni”

“Nid ydym wedi ailagor eto ers y pandemig. Rydym i gyd yn wirfoddolwyr yma ac nid yw'n gwneud synnwyr i agor pan mae ein holl staff mewn perygl”

“Nid yw llawer o'r gwirfoddolwyr wedi dychwelyd eto gan nad ydynt yn sicr ynglŷn â dychwelyd oherwydd COVID-19.”

“Rydym yn dibynnu'n sylweddol ar wirfoddolwyr, ac mae hyn wedi dod â'i heriau gan nad ydym wedi gallu eu cael i ddod yn ôl eto.

Cynyddodd rai eu presenoldeb ar-lein

- 11.2 Pan orfodwyd atyniadau i gau, nid oedd llawer y gallent ei wneud, ond dywedodd ychydig o'r rhai a siaradwyd â nhw eu bod yn awyddus i aros yn weladwy. Yn enwedig gan eu bod am fod ar flaen meddyliau pobl fel lle i ymweld ag ef pan oedd modd iddynt ailagor.

“Gwnaethom gynnal podlediadau, gwnaethom bostiadau ar y cyfryngau cymdeithasol a phethau fel hynny. Rwy'n credu bod y dulliau hyn wedi cynyddu ein presenoldeb yn y gymuned ond mae'n anodd gwybod”

“Gwnaethom ddatblygu ein gwefan ychydig gyda gwahanol bethau, ac roeddem yn gwneud mwy ar Facebook. Roeddem eisiau i bobl gofio amdanom ni”

Dywedodd rhai eu bod wedi cadw rhai mesurau COVID-19 yn wirfoddol

- 11.3 Er gwaethaf y ffaith bod cyfyngiadau ar atyniadau wedi dod i ben, dywedodd ychydig o'r rhai a siaradwyd â nhw eu bod wedi penderfynu cadw mesurau COVID-19 y gwnaethom eu mabwysiadu tra oedd cyfyngiadau ar waith.

“Rydym wedi cadw at y system unffordd, mae'n haws. Yn arbennig ar gyfer pobl â chadeiriau gwthio”

“Cynigir pryd o fwyd fel rhan o'r daith, ond rydym bellach yn ei weinyddu yn yr awyr agored pryd bynnag fo hynny'n bosib”

“Rydym yn parhau i weithredu ar gapasiti llai, gan nad yw grwpiau gwahanol eisiau eistedd wrth ymyl i bobl eraill. Maent yn dymuno eistedd ar wahân, felly nid ydym yn defnyddio'r holl seddau”

“Rydym yn rhan o'r cyngor, felly mae'n rhaid inni ddilyn y cyfyngiadau sydd mewn grym ganddo o hyd, sy'n cynnwys cadw pellter cymdeithasol o 2m, gwisgo masgiau wyneb ac olrhain cysylltiadau, felly mae'n rhaid iddyn nhw roi eu manylion wrth fynd i mewn i'r adeilad. Gan ein bod yn lleoliad bach, rydym wedi penderfynu cael cyfyngiadau ar nifer y bobl sy'n dod i mewn er mwyn diogelu ein hunain ac ymwelwyr”

- 11.4 Roedd rhai mesurau, fodd bynnag, yr oedd atyniadau yn falch o'u gwaredu. Dywedodd un atyniad bod archebu ymlaen llaw yn arfer bod yn ofynnol, ond bellach, maent ond yn gofyn i ymwelwyr archebu ymlaen llaw os ydynt yn gallu gwneud hynny.

“Gwnaethom archebion ar-lein ymlaen llaw yn unig i wasgaru mynediad, ond gwnaethom ganfod bod hyn yn cyfyngu pobl hŷn, ac roedd hyn yn achosi tagfeydd yn y dderbynfa gan nad oedd ymwelwyr hŷn yn gallu canfod sut i ddefnyddio'r system archebu ymlaen llaw. Ond rydym yn amau y gallai rwystro pobl eraill hefyd. Felly rydym yn gofyn i bobl archebu ymlaen llaw, ond nid yw'n hanfodol”

- 11.5 Dywedodd un atyniad ei fod yn parhau i newid ychydig ar eu cynnig o'i gymharu â'r hyn yr oedd cyn y pandemig, er mwyn galluogi mesurau COVID-19 y mae'n eu mabwysiadu o hyd.

“Rydym wedi atal llogi beiciau gan fod llawer o gyffwrdd ar feic. Roeddem arfer cynnig canŵau am awr ond gan fod rhaid inni lanhau popeth bob tro, rydym bellach yn eu cynnig am gyfnod o hanner diwrnod”

Dywedodd dau atyniad eu bod yn rhagweld codiadau i brisiau y flwyddyn nesaf

11.6 Dywedodd y ddau atyniad hyn y bydd angen iddynt ddechrau ad-dalu benthyciadau a gymerwyd yn ystod y pandemig, a gwnaethant hefyd gyfeirio at brisiau gwres a phetrol yn cynyddu.

“Bydd yn rhaid codi prisiau gan fod yn rhaid inni ddechrau ad-dalu'r benthyciad a gawsom trwy'r llywodraeth. Mae popeth wedi gwaethygu, mae pris tanwydd yn wallgof, mae yswiriant yn wirion. Bydd yn rhaid inni wneud rhywbeth”

12. Rhestr o atyniadau a ymatebodd i'r arolwg yn 2019 a 2020

Enw	Rhanbarth	Perchennog	Categori	Nifer ymwelwyr 2019	Nifer ymwelwyr 2020	2019 £ Oedolyn	2020 £ Oedolyn
123 Jump Ltd	D-DD	PB	A/G	101,177	29,553	† ¹⁵	£1.00
Bae Abertawe 1940au	D-O	PB	AOC	10,500*	4,000*	£7.95	£6.50
Tŷ Aberconwy	G	YG	EH	20,884	289	ND	ND
Rhaeadr a Gwaith Tun Aberdulais	D-O	YG	DIW	26,214	629	£6.00	£6.00
Gerddi Aberglasney	D-O	PB	PG	40,000*	16,000*	£9.50	£9.75
Amgueddfa Abertillery a'r Cylch	D-DD	PB	AOC	5,470*	664	-	-
Rheilffordd y Graig Aberystwyth	C	PB	RH/T	85,000*	40,000*	£5.50	£5.50
Oriel ac Amgueddfa Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth	C	ALL / PC	AOC	35,000*	3,500*	-	-
Amgueddfa Awyrennol Airworld	D-DD	PB	AOC	9,758	790	£6.50	£6.50
Parc Gwledig Dyfroedd Alun	G	ALL / PC	PG	258,764*	258,764*	-	-
Amelia Trust	D-DD	PB	Fferm	20,000*	-	£2.00	-
Amgueddfa'r Mor Porthmadog Maritime Museum	G	PB	AOC	6,766	-	£2.00	-
Ancre Hill Vineyard	D-DD	PB	B/D	4,000*	-	£10.00	-
Amgueddfa Cerflunwaith Andrew Logan	D-O	PB	AOC	320*	-	£5.00	-
Pentref Model Ynys Môn	G	PB	ARALL	17,576	4,292	£4.95	£5.95
Atlantic Arts Centre	C	PB	AOC	6,000*	100*	£10.00	-
Oriel yr Atig	D-O	PB	AOC	1,500*	-	-	-
Battlefield Live Sir Benfro	D-O	PB	A/G	2,020*	42*	£16.00	£16.00
Castell Biwmares	G	Cadw	EH	81,588	15,965	£7.30	£6.50
Big Pit – Amgueddfa Lofaol Cymru	D-DD	AC	AOC	140,466	16,943	-	-
Gwaith Haearn Blaenafon	D-DD	Cadw	EH	14,119	2,822	£5.80	£5.20
Canolfan Treftadaeth y Byd Blaenafon	D-DD	ALL / PC	DIW	41,489	1,058	-	-
Cwmni Bragu Bluestone	D-O	PB	B/D	12,000*	-	-	-
Parc Fferm Bodafon	G	PB	Fferm	20,000*	9,000*	-	-
Gerddi Bodnant	G	YG	PG	271,339	106,728	£15.40	£8.00
Neuadd Bodrhyddan	G	PB	EH	1,756	-	£7.00	-
Amgueddfa ac Oriel Gelf Brycheiniog	C	ALL / PC	AOC	4,582	32,520	-	-
Amgueddfa Brynmawr a'r Cylch	D-DD	ALL / PC	AOC	3,500*	-	-	-

¹⁵ † Am ddim i oedolion ond tâl mynediad i blant

Enw	Rhanbarth	Perchennog	Categori	Nifer ymwelwyr 2019	Nifer ymwelwyr 2020	2019 £ Oedolyn	2020 £ Oedolyn
Canolfan Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian	C	CNC	BG	138,000*	80,000*	-	-
Byd Mary Jones	G	PB	AOC	2,798	-	£4.25	-
Canolfan Ymwelwyr Cadair Idris Visitor	G	CNC	PG	3,184*	-	-	-
Gerddi Cae Hir	D-O	PB	PG	2,928	-	£6.00	-
Gerddi Caerau	G	PB	PG	6,000*	2,500*	£4.50	£4.50
Caer a Baddonau Rhufeinig Caerllion	D-DD	Cadw	EH	38,631	2,261	£4.20	£3.80
Castell Caernarfon	G	Cadw	EH	199,074	25,321	£9.90	£5.20
Castell Caerffili	D-DD	Cadw	EH	96,628	17,871	£8.90	£8.00
Castell a Pharc Gwledig Caldicot	D-DD	PB	EH	140,000*	-	-	-
Canolfan Rhiannon	C	PB	DIW	9,500*	3,000*	-	-
Canolfan Ucheldre	G	PB	EH	26,319	7,244	-	-
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth	C	PB	AOC	658,088	55,580	-	-
Canolfan Y Plase	G	PB	AOC	1,840	-	-	-
Fferm Antur Cantref	C	PB	EH	38,000	17,000*	£13.00	£14.00
Teithiau Cychod Caerdydd	D-DD	PB	RH/T	78,000*	5,500*	£4.00	£5.00
Castell Caerdydd	D-DD	ALL / PC	EH	502,224*	195,930	£13.50	£13.50
Teithiau To Agored Caerdydd	D-DD	PB	RH/T	37,000*	10,000*	£12.50	£13.00
Cardiff Waterbus	D-DD	PB	RH/T	77,828	-	£8.00	-
Canolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion	D-O	PB	BG	16,898	109	-	-
Castell Caeriw	D-O	ALL / PC	EH	42,937	12,576	£6.00	£6.00
Castell Caerfyrddin	D-O	ALL / PC	EH	19,247*	-	-	-
Amgueddfa Sir Gaerfyrddin	D-O	ALL / PC	AOC	10,441	525	-	-
Castell Coch	D-DD	Cadw	EH	58,937	8,610	£7.30	£6.50
Pentref Oes Haearn Castell Henllys	D-O	ALL / PC	EH	17,421	5,482	£5.50	£6.50
Amgueddfa Glofa Cefn Coed	D-O	ALL / PC	AOC	10,500*	-	-	-
Amgueddfa Ceredigion	C	ALL / PC	AOC	110,000*	2,800*	-	-
Caer ac Amgueddfa Bae'r Capel	D-O	PB	AOC	1,505*	-	£5.00	-
Castell Cas-Gwent	D-DD	Cadw	EH	58,901	14,982	£7.30	£6.50
Castell Y Waun	G	YG	EH	185,480	57,262	ND	ND
Castell Cilgerran	C	Cadw	EH	24,273	-	£4.20	-
Fferm Antur a Golff Ffrisbi Clerkenhill	D-O	PB	A/G	17,000*	10,000*	£8.50	£6.00

Enw	Rhanbarth	Perchennog	Categori	Nifer ymwelwyr 2019	Nifer ymwelwyr 2020	2019 £ Oedolyn	2020 £ Oedolyn
Amgueddfa Car Model Cloverlands	C	PB	AOC	1,000*	6	£2.50	-
Parc Coedwig Coed y Brenin	G	CNC	BG	183,991	-	-	-
Gardd Goedwig Colby	D-O	YG	PG	50,927	1,668	ND	ND
Coles	D-O	PB	B/D		200*	-	£12.50
Castell Conwy	G	Cadw	EH	212,364	35,553	£9.90	£8.80
Amgueddfa Cregyn Gleision Conwy	G	ALL / PC	AOC	6,000*	3,000*	-	-
Pont Grog Conwy	G	YG	EH	17,324	190	ND	ND
Gerddi Dŵr Conwy	G	PB	PG	51,000*	17,000*	-	-
Y Deyrnas Gops	G	PB	DIW	5,162	-	-	-
Rheilffordd Corris	C	PB	RH/T	5,066	-	-	-
Llynnoedd a Pharc Gwledig Cosmeston	D-DD	ALL / PC	PG	250,000*	150,000*	-	-
Pentref Canoloesol Cosmeston	D-DD	ALL / PC	EH	3,818*	1,367*	£5.10	£5.10
Craft in the Bay	D-DD	PB	DIW	36,306	9,908	-	-
Parc Gwledig Craig-y-Nos	D-DD	ALL / PC	PG	254,666	88,337	-	-
Castell Cricieth	G	Cadw	EH	46,083	4,709	£5.80	£5.10
Cwm Byddog	C	PB	PG	1,000*	900*	-	-
Cwm Weeg Gardens	C	PB	PG	425	100	£5.00	£5.00
Cwrw Llyn Cyf	G	PB	B/D	1,000*	1,000*	-	-
Amgueddfa ac Oriel Castell Cyfarthfa	D-DD	ALL / PC	AOC	56,311	9,537	£2.20	£2.30
Amgueddfa ac Oriel Cwm Cynon	D-DD	PB	AOC	17,779	4,321	-	-
Da Mhile	D-O	PB	B/D	500*	100*	£10.00	£5.00
Canolfan Ogofau Arddangos Cenedlaethol Cymru (Dan yr Ogof)	D-DD	PB	AOC	85,000*	20,000*	£15.00	£15.50
DangerPoint	G	PB	ARALL	7,500*	1,500*	£5.00	£5.00
Castell Dinbych	G	Cadw	EH	9,766	8,921	£4.20	£3.80
Canolfan Gadwraeth Fferm Denmark	D-O	PB	BG	1,000*	600*	-	-
Rheadrau Pontarfynach	C	PB	PG	59,164*	28,750*	£4.00	£4.00
Parc y Deinosoriaid	D-O	PB	A/G	60,000*	42,000*	£11.75	£12.50
Mwyngloddiau Aur Dolaucothi	D-O	YG	DIW	23,349	-	ND	-
Fferm Ceffylau Gwedd Dyfed	D-O	PB	Fferm	11,000*	7,000*	£7.95	£7.50
Dyffryn Fernant	D-O	PB	PG	4,600	1,000	£7.00	£7.00
Gerddi Dyffryn	D-DD	YG	PG	167,389	79,723	ND	ND

Enw	Rhanbarth	Perchennog	Categori	Nifer ymwelwyr 2019	Nifer ymwelwyr 2020	2019 £ Oedolyn	2020 £ Oedolyn
Canolfan Ymwelwyr Gweilch Dyfi	C	ALL / PC	BG	12,000*	-	£4.00	-
Tŷ cychod Dylan Thomas	D-O	ALL / PC	AOC	25,000*	960*	£5.00	£5.00
Canolfan Dylan Thomas	D-O	ALL / PC	ARALL	110,872	17,515	-	-
Canolfan Ymwelwyr Cwm Elan	C	DC	BG	210,259	109,913	-	-
Erddig	G	YG	EH	176,874	67,208	ND	ND
Rheilffordd Stêm Fairbourne a Barmouth	G	PB	RH/T	22,000	11,000	£10.50	£10.90
Profiad Hebogyddiaeth Cymru	C	PB	BG	60,000*	-	£175.00	-
Parc Fferm Ffantasi	C	PB	A/G	12,500*	-	£8.95	-
Rheilffordd Ffestiniog ag Ucheldir Cymru	G	ALL / PC	RH/T	186,205	-	£43.00	-
Firing Line: Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Castell Caerdydd	D-DD	PB	AOC	117,405	20,000*	£12.50	£12.50
Fferm Folly	D-O	PB	Fferm	438,234	203,073	£16.50	£16.95
Castell Fonmon	D-DD	PB	EH		29,345	-	£10.00
Canolfan Gamlas y Pedwar Loc ar Ddeg	D-DD	PB	EH	65,253	19,774	-	-
Fun Centre (The)	G	PB	A/G	80,000*	5,000*	£2.00	£2.00
Canolfan Ymwelwyr Garwnant	D-DD	CNC	PG	90,000*	56,000*	-	-
Fferm Gigrin	C	PB	BG	20,000	9,000*	£7.50	£7.50
Canolfan Gweithgareddau Parc Glasfryn	G	PB	A/G	70,000*	15,000*	-	-
Oriel Glynn Vivian	D-O	PB	AOC	54,141	9,563*	-	-
Parc Gwledig Ystad y Gnoll	D-O	ALL / PC	PG	150,000*	-	-	-
Parc Gwledig Golden Grove a Gelli Aur	D-DD	PB	EH	10,000*	8,500*	-	-
Gower Coast Adventures	D-O	PB	A/G	1,882	-	£45.00	-
Canolfan Treftadaeth Gŵyr	D-O	PB	B/D	58,516	16,221	£7.00	£4.00
Canolfan Weithgareddau Glanfa Goetre	D-DD	PB	A/G	60,000*	35,000*	-	-
Mwyngloddiau'r Gogarth	G	PB	A/G	31,576	13,176	£8.00	£8.00
Tramffordd Pen y Gogarth	G	ALL / PC	RH/T	190,227	-	£8.10	-
Parc Treftadaeth Dyffryn Maes Glas	G	ALL / PC	PG	17,565*	8,167*	£6.70	£6.70
Neuadd Gregynog	D-DD	PB	EH	3,500*	-	-	-
Rheilffordd Gwili	D-O	PB	RH/T	31,000	164	£12.00	£35.00
Gwinllan Conwy	G	PB	B/D	6,500*	-	£20.00	-
Hangar 5 Parc Trampolîn	D-O	PB	A/G	7,500*	2,000*	£12.00	£12.00

Enw	Rhanbarth	Perchennog	Categori	Nifer ymwelwyr 2019	Nifer ymwelwyr 2020	2019 £ Oedolyn	2020 £ Oedolyn
Castell Harlech	G	Cadw	EH	103,246	15,378	£7.30	£6.50
High Glanau Manor	D-DD	PB	EH	1,226	-	£15.00	-
Gerddi a Chrefftiau Hilton Court	D-O	PB	PG	30,000*	-	£4.10	-
Amgueddfa Arforol Caergybi	G	PB	AOC	5,167	-	£5.00	-
Amgueddfa'r Home Front Experience	G	PB	AOC	10,000*	1,500*	£3.50	£3.75
Horse Drawn Boat Centre (The)	G	PB	RH/T	68,000*	-	£13.50	-
Gerddi a Canolfan Wybodaeth Hywel Dda	D-O	ALL / PC	EH	1,000*	-	£3.00	-
Inigo Jones & Co Ltd	G	PB	DIW	15,760	10,000*	£6.50	£6.50
Bwthyn Gweithwyr Haearn Joseph Parry	D-DD	ALL / PC	DIW	754	-	-	-
Castell Cydweli	D-O	Cadw	EH	29,849	3,185	£5.80	£5.10
Labrinth y Brenin Arthur	C	PB	A/G	30,000	-	£12.25	-
Oriel King Street	D-O	PB	AOC	7,800*	-	-	-
Cymin (Y)	D-DD	YG	EH	6,244	-	ND	-
Gwarchodfa Natur Llyn Efyrynwy	C	RSPB	BG	182,201*	60,000*	-	-
Amgueddfa Llanbedr Pont Steffan	C	PB	AOC	3,000*	-	-	-
Tapestri'r Glaniad Olaf	D-O	PB	AOC	17,000	-	-	-
Castell Talacharn	D-O	Cadw	EH	15,396	3,460	£4.20	£3.80
Parc Dŵr a Chyfdeilad Hamdden yr LC Abertawe	D-O	PB	Thema	678,714*	185,312*	£8.00	£8.00
Rheilffordd Llyn Llanberis	G	PB	RH/T	76,741	-	£9.30	-
Eglwys Gadeiriol Llandaff	D-DD	PB	EH	12,260	5,501*	-	-
Canolfan Ymwelwyr Llandegfedd	D-DD	DC	BG	285,029	180,779	-	-
Llandudno Ski and Snowboard Centre	G	PB	A/G	18,000*	-	-	-
Llanerchaeron	C	YG	EH	52,716	8,233	ND	ND
Chwarel Hên Llanfair	G	PB	A/G	22,500	4,500*	£6.50	£5.50
Llangollen Motor Museum	G	PB	AOC	5,000*	80*	£5.00	£5.00
Amgueddfa Llangollen	G	PB	AOC	22,637	2,619	-	-
